




**Comisiynydd
Plant Cymru**

Children's
Commissioner
for Wales



Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2025-26



**Comisiynydd
Plant Cymru**

Children's
Commissioner
for Wales



Contents

CYFLWYNIAD AC UCHAFBWYNTIAU

gan Gomisiynydd Plant Cymru,
Rocio Cifuentes MBE 04

YMA I BOB PLENTYN 07

GOLEUO'R GWIR 10

GWIREDDWR HAWLIAU 12

HERIWR 20

**ARGYMHELLION TROSWAOL:
GALW AM ADNEWYDDU'R
WELEDIGAETH I FABANOD, PLANT
A PHOBL IFANC YNG NGHYMRU** 22

**MATERION POLISI THEMATIG AC
ARGYMHELLION I LYWODRAETH
CYMRU** 26

**EIN HYMRWYMIADAU
CYDRADDOLDEB** 38

**CRYNODEB O WYBODAETH
ARIANNOL 2025/26** 46

CYFLWYNIAD AC UCHAFBWYNTIAU

gan Gomisiynydd Plant Cymru,
Rocio Cifuentes MBE



2025-26 yw fy mhedwaredd flwyddyn yn y swydd hon, a thrydedd flwyddyn fy strategaeth tair blynedd, Gwella Bywyd i Blant yng Nghymru. Mewn blwyddyn pan fu newid sylweddol yn y sefydliad, rwy'n falch o fedru dweud bod y tîm wedi gwneud cynnydd pwysig at wella bywydau plant yn ystod y flwyddyn, ac wedi cyflawni rhai newidiadau pellgyrhaeddol ar lefel genedlaethol.

Mewn rôl fel yr un sydd gennyf fi, sy'n eithriadol amrywiol ac eang, mae'n anodd dewis uchafbwyntiau, ond dyma rai pethau rwy'n teimlo sydd wedi cael effaith arbennig o ddylanwadol ar blant a phobl ifanc, wedi'u halinio â phedwar diben fy rôl:



Yma i Bob Plentyn

Yn ystod y flwyddyn, rwyf wedi cynnal 54 o ymweliadau er mwyn cwrdd yn uniongyrchol â phlant a phobl ifanc ym mhob Awdurdod Lleol yng Nghymru. Mae'r rhain wedi cynnwys 20 o ysgolion cynradd ac uwchradd, ac rwyf wedi canolbwyntio ar gyrraedd ystod eang a thrawstoriad o grwpiau cymunedol, yn cynnwys Gofalwyr Ifanc WYCYD yn Wrecsam, pobl ifanc o Fosg Dar Ul Isra yng Nghaerdydd, plant o ddarparwr gofal plant arbenigol Y Bont ym Mhen-y-bont, i enwi rhai yn unig. Roedd hefyd yn wych cael bod gyda'r plant a'r bobl ifanc aeth i Eisteddfod yr Urdd ym Margam ym mis Mai, ac yn rhan o drafodaeth flynyddol y Senedd leuenctid yn Siambr y Senedd ym mis Tachwedd.



Goleuo'r Gwir

Mae'n ffrainc cael codi llais ar y materion sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc, ac eleni, ymhlith llawer o bynciau eraill, fe ges i'r anrhydedd a'r cyfrifoldeb o leisio profiad plant a phobl ifanc yng Nghymru yn sgîl effaith pandemig Covid, gan roi tystiolaeth lafar ac ysgrifenedig i ymchwiliad Covid y Deyrnas Unedig yn Llundain ym mis Medi 2025. Bûm hefyd yn siarad sawl tro â'r cyfryngau yng Nghymru ynghylch materion allweddol sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc, gan gynnwys amser sgrîn, diogelu, materion llywodraethiant, a phrofiad plant o ddigartrefedd.



Gwireddu Hawliau

un o rolau mwyaf sylfaenol y swyddfa yw helpu plant a phobl ifanc i wireddu eu hawliau. Mae wedi bod yn flwyddyn arbennig o brysur eleni, yn estyn allan at gynulleidfaoedd newydd – gan gynnwys rhoi cyflwyniadau mewn 31 o gynadleddau er mwyn rhannu neges hawliau plant a chynyddu ymwybyddiaeth o sut gallwn ni helpu plant a phobl ifanc. Roedd ein Cynhadledd Y Ffordd Gywir at Ofal Cymdeithasol, a gynhaliwyd yng Nghasnewydd ym mis Mawrth, yn gyfle pwysig i rannu arfer da a chynyddu ymwybyddiaeth o gymhwyso hawliau plant i blant sydd mewn gofal cymdeithasol.



Heriwr


Rhan ganolog o'r rôl yw herio'r rhai sydd â phŵer i wneud newidiadau cadarnhaol, felly mae wedi bod yn braf gweld Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi dau adolygiad pwysig yr wyf wedi bod yn galw amdanynt ers meitin – un ar Lywodraethiant Ysgolion a'r llall ar Drefniadau Llywodraethu Diogelu yng Nghymru. Rwy'n edrych ymlaen at weld y ddau adolygiad yn symud ymlaen ac yn gwneud cyfiawnder â'r achosion trist o gam-drin a'u sbardunodd. Rwyf hefyd wedi parhau i herio Llywodraeth Cymru i wneud mwy i ymateb i hiliaeth a'i atal, yng nghyd-destun y tensiynau cymunedol cynyddol sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc. Cafodd ein galwadau ehangach ar Lywodraeth newydd Cymru eu coladu yn ein dogfen 'Maniffesto' a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2025.

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn cynnwys llawer mwy o fanylion am yr holl feysydd uchod, gan gynnwys 35 o argymhellion thematig trosfwaol ar gyfer Llywodraeth Cymru.

Bydd gwerthusiad annibynnol o gynnydd fy strategaeth tair blynedd gyntaf yn llywio fy strategaeth tair blynedd nesaf, sydd i'w lansio yn 2026, ac a fydd yn mynd â mi at ddiwedd fy nghyfnod yn y swydd yn 2029. Am y tro, mae llawer i'w wneud o hyd, ac rwy'n edrych ymlaen at barhau i weithio'n ddygn ar bob un o'r pedwar diben, a gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau plant.



Rocio Cifuentes MBE
Comisiynydd Plant Cymru



YMA I BOB PLENTYN

Yn ystod 2025-26, mae ein Tîm Cyfranogiad wedi gweithio i wrando ar farn plant a phobl ifanc ledled Cymru, trwy ymweliadau wyneb yn wyneb ac ymgysylltu, a hefyd ar-lein trwy ein hadnoddau Materion Misol.

Rydyn ni wedi defnyddio'r safbwyntiau hyn i lywio a dylanwadu ar ein gwaith polisi a bwrw goleuni ar faterion sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc ledled Cymru. Mae'r Tîm Cyfranogiad wedi cefnogi'r Comisiynydd ar ei hymweliadau i gwrdd â phlant a phobl ifanc ledled Cymru, ac wedi cyflwyno hyfforddiant a sesiynau cynyddu ymwybyddiaeth i blant, pobl ifanc ac ystod o weithwyr proffesiynol.



Ein gwaith gyda Phlant a Phobl Ifanc

- * Cefnogi'r Comisiynydd i gynnal **54** o ymweliadau i gwrdd â phlant a phobl ifanc ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru.
- * Gweithio'n uniongyrchol gyda mwy na **4,500** o blant a phobl ifanc, o bob awdurdod lleol yng Nghymru, mewn ysgolion a lleoliadau ieuentid cymunedol.
- * Cymryd rhan mewn nifer o ddigwyddiadau cenedlaethol wyneb yn wyneb, gan gynnwys Diwrnod Hwyl Cenedlaethol y Cybiau, digwyddiadau Cymru Ifanc, cwrdd â Senedd Ieuentid Cymru, a chwrdd â phlant a phobl ifanc o bob rhan o Gymru.
- * Cwrdd â mwy na **1000** o'n hysgolion Llysgenhadon Gwych ar-lein a phartnera gydag E-Ysgol i ymgysylltu â mwy na **2500** o blant mewn gweithgareddau hawliau rhyngweithiol ar-lein.
- * Clywed barn mwy nag **11,600** o blant a phobl ifanc o bob awdurdod lleol yng Nghymru trwy ein hadnodd Materion Misol.
- * Casglu barn ar faterion yn cynnwys etholiadau'r Senedd, gwisg ysgol, trafndiaeth, canllawiau gwrthfwlio, y gwaharddiad ar gyfryngau cymdeithasol i rai o dan 16 oed, a phynciau eraill.
- * Diweddarw ein hadnoddau ar ein gwefan fel ei bod yn haws ei chyrru, a chynnig opsiynau cyrru gwahanol i blant, pobl ifanc, rhieni/ gofawyr a gweithwyr proffesiynol.
- * Cefnogi pobl ifanc â phrofiad gwaith yn ein tîm, sy'n cysylltu'n uniongyrchol â'n Haddewid Rhianta Corfforaethol i blant a phobl ifanc.
- * Creu fideo 'Llwybrau i'r Ysgol' – fe wnaethon ni gwrdd â theuluoedd yr oedd eu plant yn cael trafferthion o ran llwybrau diogel i'r ysgol, a chreu fideo oedd yn amlygu'r prif anawsterau byddai'r person ifanc yma yn eu hwynebu.
- * Lansio bathodyn Hawliau i Sgowntiaid a Geidiau, er mwyn helpu plant a phobl ifanc i ddysgu am eu hawliau a chael bathodyn.
- * Ymuno â Chlwb Lego Heronsbridge a chefnogi hawliau plant a phobl ifanc i chwarae, ochr yn ochr â chasglu eu barn ar ein hadnodd Materion Misol ac edrych ar y newidiadau gallen ni eu gwneud.
- * Creu adroddiadau i bob awdurdod lleol; roedd hynny'n cynnwys amlygu data rydyn ni wedi'i dderbyn o'r ymatebion i'r Materion Misol a nifer o alwadau/achosion o'r awdurdod lleol dan sylw y mae Cyngor a Chymorth wedi delio gyda nhw, a throsolwg o'r hyn roedd y materion hynny'n ymwneud â nhw, ar gyfer pob mis yn 2024-25.
- * Cynnal cyfarfod terfynol gydag aelodau ein Panel Ieuentid Ymgynghorol fel unigolion, a chyflwyno model newydd i weithio gyda Llysgenhadon Cymunedol fel ymgynghorwyr.



Ein gwaith gyda phobl broffesiynol sy'n gweithio gyda Phlant a Phobl Ifanc

- * Cynrychiolaeth yn Rhwydwaith Cyfranogiad Cenedlaethol Cymru Gyfan, Rhwydwaith Gweithwyr Cyfranogiad Gogledd Cymru a Rhwydwaith Cymru Gyfan sydd â Phrofiad o Ofal.
- * Sesiwn hyfforddi ar-lein ar gyfer myfyrwyr addysg cyfrwng Cymraeg blwyddyn gyntaf yn PCYDDS ar CCUHP a rôl y swyddfa.
- * Rhoi cyflwyniad ar 'Y Ffordd Gywir' i Rhwydwaith Cyfranogiad Ieuencid y Deyrnas Unedig fel enghraifft o arfer da yng Nghymru.
- * Gweithio gyda Cwtch Addysg i gyflwyno hyfforddiant CCUHP i'w hymgynghorwyr newydd cyn eu gwaith ar Addysg Perthnasoedd a Rhyw (RSE).
- * Cyflwyno hyfforddiant i arweinwyr Cadetiaid yr Heddlu ym Mhencadlys Heddlu Pen-y-bont ar Ogwr.
- * Cyflwyno digwyddiad ar y cyd ar 'Y Ffordd Gywir' i daclo tlodi plant, mewn partneriaeth â Chanolfan Gyfreithiol y Plant.
- * Cyflwyno diwrnod hyfforddi awdurdod cyfan ar hawliau plant, y daeth arweinwyr pob cyngor iddo, yn ogystal â chynrychiolwyr eraill a phlant a phobl ifanc o baneli lleol.
- * Cyflwyno hyfforddiant ar CCUHP a'n swyddfa i hosbis plant Tŷ Hafan, gan roi cyfle i'r staff feddwl pa hawliau oedd bwysicaf i'w rolau.
- * Darparu hyfforddiant i fyfyrwyr gwaith cymdeithasol ym Mhen-y-bont ar Ogwr a Chaerdydd, gyda ffocws penodol ar Erthygl 12 a sut gall myfyrwyr gwaith cymdeithasol wrando'n effeithiol ar blant a phobl ifanc.
- * Cydweithio ag arweinwyr Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGCau) yng Ngogledd Cymru a Llywodraeth Cymru i gyflwyno sesiwn i aelodau'r BGC ar Hawliau Plant.
- * Trefnu cynhadledd yng Nghasnewydd i gynyddu ymwybyddiaeth o'n canllaw Y Ffordd Gywir i Ofal Cymdeithasol – a chreu lle i amlygu a rhannu arfer da a chlywed am faterion allweddol gan weithwyr proffesiynol yn y sector hwn.

Ein Heffaith



Y math o o'r adborth a gawson ni

Gan weithwyr proffesiynol:



Roedd yn grwn, yn rhyngweithiol ac yn ddiddorol! Byddwn i'n bendant yn annog gwneud hyn ar raddfa fwy oherwydd y neges bwysig a'r effeithiolrwydd cytbwys, a grewyd â chynhesrwydd gwirioneddol a bwriadau da, yn ogystal ag agwedd ddiduedd"

Gan bobl ifanc:



Roeddwn i'n meddwl ei fod yn cynnwys llawer o wybodaeth a bod dysgu mwy am fy hawliau yn ddefnyddiol dros ben. Rwy'n edrych ymlaen at rannu'r wybodaeth a'r cyngor a roddwyd gyda'm cyfoedion"



GOLEUO'R GWIR

O ran goleuo'r gwir, mae ein tîm wedi cefnogi'r Comisiynydd i godi llais ar hyd y flwyddyn ar y cyfryngau cenedlaethol, gan gynnwys y BBC, ITV, S4C a Nation Cymru ar bynciau megis:

- ✓ Diogelu mewn sefydliadau crefyddol
- ✓ Etholiadau'r Senedd
- ✓ Costau gofal plant yn ystod yr haf
- ✓ Ymateb i strategaeth cam-drin plant yn rhywiol
- ✓ Ymateb i Achos Neil Foden
- ✓ Newyddion Ni a darn Newyddion ar amser sgrîn
- ✓ Darn Nation Cymru ar faneri a gwrthwynebiad i fewnfudwyr
- ✓ Cyfweiliad i nodi dechrau Ymchwiliad Covid gyda'r BBC
- ✓ Ein Maniffesto ar gyfer Plant a Phobl Ifanc cyn Etholiadau'r Senedd

Prosiectau sbotolau

Arolwg y Ffordd Gywir – cynhaliwyd hwn fel adnodd Materion Misol a chafodd ei gwblhau gan **215 o weithwyr proffesiynol** (yr oedd 163 ohonynt yn athrawon neu'n gynorthwyywyr addysgu, a 52 yn arweinwyr fforymau/grwpiau ieuencid) a **3,523 o bobl ifanc** (yr oedd 2,484 ohonynt o ysgolion cynradd, 896 o ysgol uwchradd neu goleg, a 143 gan bobl ifanc o grŵp/fforwm ieuencid). Defnyddiwyd y data cenedlaethol a gawsom o hyn i fwydo i mewn i'n hadroddiad Strwythurau Cyfranogiad, a defnyddiwyd hynny i ddylanwadu ar ein strategaeth tair blynedd (2026-29). Rhannwyd data unigol gyda'r holl leoliadau ysgol a ieuencid, i'w defnyddio'n dempled ar gyfer gwella'u gwaith seiliedig ar hawliau. Roedd modd hefyd i awdurdodau lleol ofyn am ddata a wnaed yn ddienw.



Mae ein Prif Gyhoeddiadau eleni wedi cynnwys:

- **Ar destun Tai a Digartrefedd:** www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2025/04/How-housing-and-homelessness-affects-children-and-young-people-in-Wales.pdf
- **Ar destun Plant Anabl:** www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2025/07/Disabled-Children-Lives_ENG_2425.pdf
- **Ar destun Iechyd Meddwl:** www.childcomwales.org.uk/mental-health-roundtables-report/
- **Ein Maniffesto ar gyfer Plant a Phobl Ifanc:** www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2025/10/Manifesto-ENGLISH.pdf



Cyfranogiad yng Nghymru: O Egwyddorion i Ymarfer – Cychwynnodd y Prosiect Cyfranogiad ym mis Ebrill 2025, trwy ddosbarthu holiaduron i bob un o'r 22 awdurdod lleol, yn gofyn am wybodaeth ynghylch sut mae cyfranogiad plant a phobl ifanc yn cael ei gefnogi a'i weithredu ym mhob awdurdod, beth yw'r prif rwystrau, ac unrhyw enghreifftiau o arfer da. Mae dyletswyddau statudol ar awdurdodau lleol i gynnwys plant a phobl ifanc wrth wneud penderfyniadau, gan gynnwys o Adran 12 o'r Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru), a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Yn dilyn ymlaen o'r arolwg ysgrifenedig, rhwng Gorffennaf a Rhagfyr 2025, bu'r Comisiynydd a thîm y prosiect yn ymweld â phob un o'r 22 awdurdod lleol i gwrdd â gweithwyr proffesiynol allweddol i drafod sut maen nhw'n cyflawni eu dyletswyddau i gefnogi cyfranogiad ystyrlon plant a phobl ifanc yn eu hawdurdodau eu hunain. Diben yr ymweliadau oedd edrych yn fanylach ar yr ymatebion a manteisio ar y cyfle i gwrdd wyneb yn wyneb a meithrin cysylltiadau. Buon ni'n casglu tystiolaeth o arfer gorau, yn ogystal â nodi rhwystrau i gyfranogiad ystyrlon, a byddwn ni'n rhannu crynodeb o hyn yn unol â phum egwyddor dull gweithredu 'Y Ffordd Gywir': Gwreiddio; Cydraddoldeb a Pheidio â Gwahaniaethu; Grymuso; Cyfranogiad ac Atebolrwydd, ynghyd â chasgliadau ac argymhellion mewn adroddiad erbyn hydref 2026.

Ymweliad Prif Weinidog Cymru – Ym mis Hydref 2025, fe wnaethon ni wahodd ysgolion ar draws Sir Castell-nedd Port Talbot i ymuno â ni yn ein swyddfa ar gyfer cyfle unigryw i gwrdd â Phrif Weinidog a Chomisiynydd Plant Cymru er mwyn rhannu eu barn a sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed. Soniodd y bobl ifanc am gefnogaeth iechyd meddwl, trafndiaeth a theithio i'r ysgol, tra bu'r plant cynradd yn siarad â'r Prif Weinidog am y gefnogaeth sydd ar gael iddyn nhw yn yr ysgol a'r pethau sy'n helpu eu hiechyd meddwl.



GWIREDDWR HAWLIAU

Mae fy Nhîm Cyngor a Chymorth i Blant yn darparu cyngor a chymorth cyfrinachol, annibynnol i blant a phobl ifanc, ac i'r oedolion a'r gweithwyr proffesiynol sy'n cysylltu â ni ynghylch eu hawliau. Mae pob ymholiad yn ymwneud â phlentyn neu berson ifanc, er y gall y person sy'n cysylltu â ni fod yn rhiant, yn ofalwr, yn aelod o'r teulu, yn weithiwr proffesiynol neu'n aelod o'r cyhoedd.

Mae ein dull gweithredu wedi'i deilwra i amgylchiadau'r plentyn, y person ifanc, neu'r oedolyn sy'n cysylltu â ni. Mae ar rai pobl angen gwybodaeth glir neu help i ddeall proses. Mae ar eraill angen gwaith achos dros gyfnod, cyswllt â chyrrff cyhoeddus, neu ymyrraeth i helpu i sicrhau ymateb sy'n parchu hawliau.

Fel gwasanaeth seiliedig ar hawliau, rydyn ni'n ystyried y sefyllfa gyfan: llais y plentyn, eu lles pennaf, mynediad at gefnogaeth, cyfranogiad mewn penderfyniadau, a dyletswyddau'r cyrrff cyhoeddus dan sylw.

Sut mae ein Tîm Cyngor a Chymorth ar Hawliau Plant yn Helpu

1

Gwranddo

Rydyn ni'n gwranddo er mwyn deall amgylchiadau a phryderon y plentyn.

2

Esbonio Hawliau

Rydyn ni'n nodi'r hawliau dan sylw ac yn egluro prosesau cymhleth mewn iaith glir, bob dydd.

3

Archwilio opsiynau

Rydyn ni'n cyflwyno'r camau nesaf gorau, gan gynnwys cwynion, apeliadau, a ffynonellau cefnogaeth.

4

Cynghori neu ymyrryd

Rydyn ni'n rhoi cyngor amserol, cywir, a lle bo hynny'n briodol, rydyn ni'n gweithredu ar ran y plentyn neu'r teulu.

5

Gwneud gwahaniaeth

Rydyn ni'n helpu i sicrhau newid, eglurder neu ffordd ymlaen. Mae ein tystiolaeth hefyd yn llywio ein gwaith polisi a dylanwadu ehangach.



Amlygu profiadau a lleisiau plant



Rydyn ni'n dadansoddi ein tueddiadau gwaith achosion er mwyn sicrhau ein bod ni'n parhau i amlygu profiadau plant a phobl ifanc – gan dynnu sylw at yr anawsterau maen nhw'n eu hwynebu.

Trwy droi profiadau unigol yn dystiolaeth thematig, mae ein gwasanaeth cyngor yn helpu i sicrhau bod hawliau plant a phobl ifanc yn llywio polisi ehangach, yn dylanwadu, ac yn gwella gwasanaethau ac ymchwil.

Yn ystod 2025–26, defnyddiwyd gwybodaeth o waith achosion i gefnogi gwaith sefydliadol ynghylch mynediad at wasanaethau iechyd, diogelu, osgoi'r ysgol am resymau emosiynol, bwllo ar sail hiliaeth a hunaniaeth, cymorth meddygol mewn ysgolion, Anghenion Dysgu Ychwanegol, a gofal cymdeithasol. Llywiodd y dystiolaeth hon drafodaethau polisi a phapurau safbwynt, cynllunio prosiectau a busnes, ymatebion yn y cyfryngau, cynadleddau a'r ymgysylltu â sefydliadau megis Arolygiaeth Gofal Cymru, Estyn, Gofal Cymdeithasol Cymru a Dysgu. Yn y modd hwn, mae'r profiadau a adlewyrchir yn ein gwaith achosion yn helpu cydweithwyr a sefydliadau allanol i ddeall yn well yr heriau mae plant a phobl ifanc yn eu hwynebu, a nodi ble gallai fod angen i ymarfer, hyfforddiant proffesiynol neu wasanaethau cyhoeddus wella.



Byddwn i'n bendant yn argymhell y gwasanaeth i unrhyw riant neu roddwr gofal. Fe gawson ni gyngor proffesiynol bob cam o'r daith."

Adborth gan riant



Fe ges i ymateb manwl, llawn i'r ymholiad oedd gen i – allwn i ddim bod wedi gofyn am well ymateb! Diolch o galon. Rwy'n dymuno gallai sefydliadau eraill ddilyn yr un patrwm â chi."

Adborth gan riant


Cipolwg ar 2025–26



Rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026, bu'r fîm yn delio â chyfanswm o **634 o achosion** oedd yn ymwneud â hawliau plant a phobl ifanc, ac mae hynny'n dal i gyfateb yn fras i ffigurau'r flwyddyn ariannol flaenorol.



Llwyth Achosion yn ystod 2025/26



Roedd tua 96% (607 o achosion) o'r holl achosion yn ymholiadau newydd. Roedd yr ymholiadau hynny'n ymwneud â 947 o faterion a gofnodwyd – ar gyfartaledd, 1.6 o faterion fesul ymholiad. Mae hynny'n dangos cymhlethdod yr achosion rydyn ni'n delio â nhw, gan mai anaml y bydd materion hawliau plant yn codi mewn modd ynysig, fel arfer mae materion eraill ynghlwm wrthynt.

Mae'r llwyth achosion yn adlewyrchu'r ystod lawn o ymholiadau y bu'r Gwasanaeth Cyngor a Chymorth yn ymdrin â nhw yn ystod y flwyddyn. Mae 'Achosion grymuso' yn cyfeirio at ymholiadau lle cafodd y person gyngor prydlon, gwybodaeth neu eu cyfeirio ymlaen mewn modd oedd yn eu galluogi i ddeall eu hawliau a chymryd y camau nesaf priodol yn hyderus, yn aml yr un diwrnod. Mae 'Achosion ymyrraeth' yn galw am gefnogaeth fanylach am gyfnod hwy, gan gynnwys archwilio opsiynau, adolygu gwybodaeth, cysylltu â gwasanaethau, neu ymyrryd ar ran plentyn neu berson ifanc. Mae'r ystod hon – o gyngor penodol i waith achosion manwl – yn adlewyrchu sut rydyn ni'n teiwra ein hymateb i amgylchiadau pob plentyn a chymhlethdod y materion a godwyd.



Ymholiadau

607

Cafwyd 607 o ymholiadau newydd ynghylch hawliau plant



Gweithgarwch gwaith achosion

4,127

Cofnodwyd 4,127 achos o weithgaredd a rhyngweithio mewn gwaith achosion



Materion a godwyd

947

ar gyfartaledd 1.6 fesul ymholiad




Cwmpas cenedlaethol

22

Cyrhaeddwyd POB UN o'r 22 ardal awdurdod lleol yng Nghymru




Dadansoddiad
**Materion Allweddol
a Thueddiadau**



Beth mae'r flwyddyn yn ei ddweud wrthy'n ni

- * Addysg. Anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a gwasanaethau cymdeithasol oedd y tri maes mwyaf o hyd lle cododd materion.
- * Roedd cwynion ac anawsterau'n cael hyd i ffordd drwy systemau yn themâu cyson ar draws addysg, gofal cymdeithasol, iechyd a thai.
- * Roedd y canlyniadau a gofnodwyd yn cynnwys cymorth ymarferol, newid penderfyniadau neu ymarfer, llwybrau cliriach ymlaen a sicrwydd bod hawliau wedi cael eu hystyried.
- * Rhieni oedd y grŵp mwyaf o hyd oedd yn cysylltu â'r gwasanaeth; mae cynyddu ymwybyddiaeth uniongyrchol a mynediad i blant a phobl ifanc yn faes pwysig i'w ddatblygu.

Y prif feysydd lle cododd materion yn ein gwaith achosion 2025/26



Yn ystod y cyfnod adrodd, ymatebodd y Gwasanaeth Cyngor a Chymorth i ystod eang o faterion a godwyd gan blant, teuluoedd a gweithwyr proffesiynol.



Y tri maes lle cododd y nifer mwyaf o faterion

Cyfran o'r cyfanswm o **947** o faterion a gofnodwyd

31%

Addysg

Cwynion, cyngor,
trafnidiaeth,
gwaharddiadau a
bwlio.



21%

Gwasanaethau Cymdeithasol

Cwynion, cyngor,
lleoliadau, darpariaeth
a diogelu.



20%

ADY

Lleoliadau, CDUiau,
darpariaeth ac
apeliadau tribiwnlys.



O'r holl faterion a gofnodwyd, Addysg, materion Gwasanaethau Cymdeithasol ac Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) oedd yn cynrychioli ein tri maes pennaf. Mae cysylltiad yn aml rhwng Addysg a materion ADY, a chydâ'i gilydd roedd Addysg ac ADY yn cyfrif am dros hanner yr holl faterion lle gwelwyd bod angen mynediad at gefnogaeth glir, ddibynadwy a hygyrch i gael hyd i ffordd drwy system oedd yn aml yn gymhleth ac yn heriol, fel y bu Llywydd ETW yn cydnabod, pan ddisgrifiodd y system fel un "deallusol heriol" mewn adolygiad o'r Fframwaith Deddfwriaethol ADY.

Thema ar draws systemau

Categoreiddiwyd o leiaf **207** o faterion yn benodol fel cwynion ar draws addysg, gwasanaethau cymdeithasol, iechyd a thai (22% o'r holl faterion a gofnodwyd). Mae hynny'n dangos pwysigrwydd llwybrau clir, hygyrch a phlentyn-ganolog ar gyfer datrys pryderon.

Mynediad a chwmpas

Pwy gysylltodd â ni

Rhieni oedd y grŵp mwyaf o atgyfeirwyr, yn cyfrif am 57% o'r holl ymholiadau newydd. Daeth ymholiadau eraill gan aelodau o'r teulu estynedig, aelodau o'r cyhoedd, a gofalwyr maeth. Cysylltodd plant a phobl ifanc yn uniongyrchol â'r gwasanaeth mewn 19 ymholiad a gofnodwyd. Mae'n bwysig nodi bod pob ymholiad yn cael effaith uniongyrchol ar blentyn neu berson ifanc, gan fod ein cyngor a'n cymorth yn golygu bod modd iddyn nhw gael hyd i ffordd ymlaen a gwireddu eu hawliau.

Sut cysylltodd pobl â ni

Cychwynnodd dros hanner yr ymholiadau newydd dros y ffôn (56%), gyda rhyw 44% yn cyrraedd trwy e-bost. Cafwyd dau ymholiad trwy lythyr, a dau wyneb yn wyneb.


Cwmpas Cymru Gyfan

Roedd y gwaith achosion yn cynrychioli pob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru. Ymhlith yr ymholiadau lle nodwyd ardal, roedd y niferoedd mwyaf yn dod o Gaerdydd (53), Rhondda Cynon Taf (46), Abertawe (43), Pen-y-bont ar Ogwr (42) a Bro Morgannwg (34). Mae'r ffigurau hyn yn disgrifio'r galw a gofnodwyd, ac ni ddylid eu dehongli fel arwydd o amlygrwydd neu ansawdd gwasanaeth mewn ardal benodol.

Oedrannau'r Plant a'r Bobl Ifanc yn ein Gwaith Achosion

Cofnodwyd gwybodaeth fanwl ar lefel y plentyn mewn 486 o gofnodion am blant. Roedd oed yn hysbys mewn 448 o'r cofnodion hyn. Manylion a gofnodwyd yw'r rhain, nid arwydd o holl gwmpas y gwasanaeth na chadarnhad o nifer y plant unigryw. Yn achos rhai ymholiadau cyflym neu gyffredinol, nid oedd yn angenrheidiol nac yn briodol casglu manylion personol.

Oedrannau'r Plant a'r Bobl Ifanc a gynrychiolwyd yn ein gwaith achosion



Canlyniadau ac effaith

Pa wahaniaeth wnaeth y gwasanaeth?

Ni ellir crisialu effaith gwaith cyngtori ag un mesur. Weithiau mae'n golygu newid penderfyniad neu ddarpariaeth newydd. Dro arall mae'n golygu cynnwys plentyn mewn cyfarfod, teulu'n deall eu hawliau, trefniant anniogel neu anaddas yn cael ei ailystyried, neu gorff cyhoeddus yn rhoi ymateb clir, atebol.

Ymhlith y canlyniadau a gofnodwyd roedd:

- sicrhau neu symud ymlaen gyda lleoliadau addysg arbenigol neu fwy addas;
- rhoi cymorth un-i-un, addysgu gartref, neu ddarpariaeth addysgol arall ar waith;
- cytuno ar gymorth gyda thrafnidiaeth i'r ysgol neu gefnogi milltired;
- newid arferion presenoldeb i adlewyrchu anghenion ieched plentyn;
- cynnwys plant a phobl ifanc yn well mewn cyfarfodydd ac wrth gynllunio pontio;
- teuluoedd yn cael esboniadau cliriach, sicrwydd a chymau nesaf ymarferol;
- person ifanc â phrofiad o ofal yn cael mynediad at wybodaeth personol; a
- thystiolaeth o waith achosion yn cael ei rhannu'n fewnol er mwyn llywio gwaith polisi a dylanwadu ehangach.

Y gwahaniaeth mae cyngor hygyrch yn ei wneud

Heb gyngor hygyrch, annibynnol, gall plant a theuluoedd gael eu gadael i ganfod ffordd drwy systemau cymhleth ar eu pennau eu hunain, yn ansicr ynghylch eu hawliau neu sut mae herio penderfyniad. Gall hynny gynyddu perygl oedi, pryderon diogelu sydd heb eu datrys, darpariaeth anaddas, a chau plant allan o benderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw. Mae ein gwasanaeth ni yn helpu pobl i ddeall eu hawliau, canfod llwybr priodol

ymlaen, a chodi pryderon gyda'r corff cyhoeddus perthnasol. Lle bo angen, rydyn ni'n ymyrryd i geisio atebolrwydd, eglurhad, neu newid ymarferol. Trwy ddod ag achosion unigol ynghyd, rydyn ni hefyd yn nodi rhwystrau sy'n codi fwy nag unwaith, ac yn sicrhau bod profiadau plant a phobl ifanc yn llywio polisi ehangach, yn dylanwadu, ac yn gwella gwasanaethau.

Heb gyngor hygyrch

Gyda'n cefnogaeth ni

Gall fod yn anodd cael hyd i ffordd trwy brosesau cymhleth	Caiff hawliau a phrosesau eu hesbonio'n glir
Efallai na fydd teuluoedd yn gwybod sut i herio penderfyniadau	Nodir opsiynau ymarferol a llwybrau herio
Gall risgiau neu anghenion heb eu diwallu barhau	Gall pryderon gael eu codi at sylw'r lluniwr penderfyniadau perthnasol
Efallai na fydd barn plant yn cael ei hystyried yn llawn	Mae cyfranogiad a lles pennaf yn ganolog
Gall profiadau unigol barhau'n anweledig	Mae themâu gwaith achosion yn llywio gwaith ehangach y sefydliad

Cipluniau o achosion dienw

Effaith ar waith

Cadw addysg yn hygyrch ar ôl i deulu symud

Y mater dan sylw: Roedd teulu wedi symud oherwydd cam-drin domestig, ac roedd angen help arnyn nhw gyda chost cynnal taith y plentyn i'r ysgol.

Beth wnaethon ni: Cododd y fîm fater trafnidiaeth a cheisio ymateb seiliedig ar hawliau gan yr awdurdod lleol.

Y gwahaniaeth: Awdurdododd y Pennaeth Addysg lwfans milltired, gan helpu'r plentyn i barhau i gael mynediad at addysg.

Ffocws ar hawliau: Erthyglau **3** (lles pennaf), **19** (amddiffyn rhag trais a niwed) a **28** (hawl i addysg).

Cytuno ar gefnogaeth i blentyn ag anghenion dysgu ychwanegol

Y mater dan sylw: Roedd rhieni yn pryderu nad oedd eu plentyn yn cael y gefnogaeth angenrheidiol i gymryd rhan yn llawn mewn addysg.

Beth wnaethon ni: Eglurodd y fîm y broses, cynghori'r rhiant a mynd ar ôl y ddarpariaeth angenrheidiol.

Y gwahaniaeth: Cytunodd yr awdurdod lleol i roi cefnogaeth un-i-un amser llawn, ac roedd gan y rhiant ddealltwriaeth gliriach o'r broses.

Ffocws ar hawliau: Erthyglau **3** (lles pennaf), **28** (hawl i addysg) a **29** (dylai addysg ddatblygu galluoedd y plentyn).

Cynnal addysg tra bod anghenion yn cael eu hadolygu

Y mater dan sylw: Roedd angen addysg gartref ar blentyn tra bod tystiolaeth bellach yn cael ei chasglu i lywio'u Cynllun Datblygu Unigol.

Beth wnaethon ni: Aeth y fîm ar ôl darpariaeth addysg interim a'r wybodaeth asesu oedd yn angenrheidiol i gynllunio.

Y gwahaniaeth: Darparwyd pum awr o addysgu gartref a gofynnwyd am adroddiad wedi'i ddiweddarau i lywio'r CDU.

Ffocws ar hawliau: Erthyglau **3** (lles pennaf), **28** (hawl i addysg) a **29** (datblygu trwy addysg).

Newid arfer presenoldeb i adlewyrchu salwch

Y mater dan sylw: Roedd salwch parhaus person ifanc yn effeithio ar bresenoldeb a'r dull o gofnodi absenoldebau.

Beth wnaethon ni: Cododd y fîm y pryder a cheisio dull gweithredu oedd yn cydnabod amgylchiadau iechyd y plentyn.

Y gwahaniaeth: Derbyniodd yr ysgol y dylid rheoli'r salwch gartref, a chytunwyd i beidio â chofnodi absenoldebau cysylltiedig fel rhai heb eu hawdurdodi.

Ffocws ar hawliau: Erthyglau **2** (peidio â gwahaniaethu yn erbyn pobl), **3** (lles pennaf), **24** (hawl i iechyd) a **28** (hawl i addysg).

Cynnwys person ifanc mewn penderfyniadau

Y mater dan sylw: Roedd person ifanc am fynd i gyfarfod ynghylch penderfyniadau oedd yn effeithio arnyn nhw.

Beth wnaethon ni: Pwysleisiodd y fîm hawl y person ifanc i gyfranogi a chael clywed eu barn.

Y gwahaniaeth: Cytunodd yr ysgol y gallai'r person ifanc fynd i'w cyfarfod.

Ffocws ar hawliau: Erthyglau **12** (hawl i fynegi barn a bod y farn honno'n cael ei chymryd o ddifri) ac **13** (hawl i geisio, derbyn a rhannu gwybodaeth).



A close-up photograph of a young person with curly brown hair and freckles, looking down and speaking into a black microphone. They are wearing a dark blue shirt with a small circular logo on the sleeve. The background is blurred, showing what appears to be a stone wall.

HERIWR

Mae fy nhîm Polisi a Materion Cyhoeddus yn sicrhau bod popeth rydyn ni'n ei glywed gan blant a phobl ifanc yn troi'n danwydd i yrru'r heriau rydyn ni'n eu rhoi i Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill.

Yn 2022, trwy fy ymgynghoriad Gobeithion i Gymru, fe glywais gan fwy nag 8,800 o blant a phobl ifanc ledled Cymru. Fe ddwedson nhw wrthyf fi beth yw'r pethau pwysicaf iddyn nhw: iechyd meddwl da, rhyddid rhag tlodi, teimlo'n ddiogel, cael y gefnogaeth angenrheidiol mewn addysg, cael eu trin yn deg a chael lleisio barn yn ystyrllon ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau. Y blaenoriaethau hyn sydd wedi llywio fy ngwaith fel Comisiynydd Plant Cymru ac maen nhw'n dal i ddarparu datganiad grymus ynghylch y pethau pwysicaf i blant a phobl ifanc.



Ers hynny, rwyf wedi parhau i ymgysylltu'n helaeth â phlant a phobl ifanc. Yn ystod y tair blynedd diwethaf, mae fy swyddfa wedi ymgysylltu â mwy na 36,000 o blant a phobl ifanc, wedi casglu barn rhyw 20,000 o blant a phobl ifanc trwy ein rhaglen Materion Misol, wedi derbyn mwy na 3,500 o ymatebion trwy arolwg Y Ffordd Gywir, ac wedi derbyn yr hyn a ddysgwyd o bron 2,000 o achosion Cyngor a Chymorth i nodi rhwystrau i hawliau a gwasanaethau plant. Mae'r dystiolaeth hon wedi llywio datblygiad fy Ngheisiadau Maniffesto a'm Cynllun Strategol sydd ar ddod ar gyfer 2026-29.

Mae neges glir yn dod i'r amlwg: mae'r blaenoriaethau a nodwyd gan blant a phobl ifanc yn Gobeithion i Gymru yn dal yn flaenoriaethau maen nhw'n eu codi heddiw. Er bod cynnydd wedi'i wneud mewn rhai meysydd, mae gormod o blant a phobl ifanc yn parhau i wynebu rhwystrau wrth gyrchu gwasanaethau, lleisio barn a gwireddu eu hawliau. Mae'r ffaith bod llawer o'r un pryderon yn parhau i gael eu codi heddiw yn awgrymu nad yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud cynnydd digonol o ran rhoi sylw i'r blaenoriaethau. Ar hyd 2025/26, amlygodd fy ngwaith polisi bryder a allai helpu i egluro pam nad yw'r cynnydd bob amser wedi cyfateb i raddfa'r heriau mae plant a phobl ifanc yn eu hwynebu. Ar draws sawl maes polisi, ni fu bob amser ffocws digon clir na chyson ar hawliau, anghenion a phrofiadau penodol babanod, plant a phobl ifanc.

Yn fy marn i, mae hynny'n arwydd o fater mwy sylfaenol. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod heb weledigaeth glir nac uchelgais ddigonol ar gyfer babanod, plant a phobl ifanc. Yn rhy aml, roedd materion plant yn ddarniog ar draws y llywodraeth, yn hytrach na chael eu gyrru gan uchelgais a rennir i wella bywydau plant a gwireddu eu hawliau.

O ganlyniad mae plant a phobl ifanc yn parhau i nodi llawer o'r un blaenoriaethau o flwyddyn i flwyddyn, ac mae anghydraddoldeb a rhwystrau sylweddol yn parhau. Gan mai Cymru oedd y wlad gyntaf yn y Deyrnas Unedig i sefydlu swyddfa Comisiynydd Plant, mae wedi ennill enw da rhyngwladol am hybu hawliau plant. Fodd bynnag, mae perygl bod yr enw da hwn wedi arwain at elfen o laesu dwylo. Amlygodd fy rhagflaenydd bryderon tebyg, ac mae parhad llawer o'r un materion a nodwyd gan blant a phobl ifanc yn awgrymu nad yw Cymru wedi sicrhau digon o uchelgais na sbardun i wella bywydau pob dydd plant mewn modd sy'n cyfateb i'w henw da.

Gan fod etholiad y Senedd yn digwydd ym mis Mai 2026, mae cyfle nawr i Lywodraeth newydd Cymru newid ei hagwedd. Dylai sicrhau bod babanod, plant a phobl ifanc yn ganolog i'w Rhaglen Lywodraethu, mynegi gweledigaeth genedlaethol glir ar gyfer plentyndod yng Nghymru, ac arddangos mwy o uchelgais o ran gwella'r canlyniadau i genedlaethau o blant yn awr ac yn y dyfodol. Mae hynny'n galw am fwy nag ymrwymadau polisi unigol. Mae'n galw am y trefniadau deddfwriaethol, gweinyddol a sefydliadol angenrheidiol i wreiddio hawliau plant ar draws y llywodraeth a sicrhau bod modd mesur cynnydd yn ôl a yw babanod, plant a phobl ifanc yn profi gwelliannau ystyrlon yn eu bywydau.

Mae plant a phobl ifanc wedi bod yn gyson yn yr hyn maen nhw wedi'i ddweud wrthynt ni. Mae'r dystiolaeth yn glir. Yr hyn sydd wedi bod ar goll yw'r weledigaeth, yr uchelgais a'r arweinyddiaeth i gyflawni'r cynnydd mae ganddyn nhw hawl i'w ddisgwyl. Mae cyfle i Lywodraeth nesaf Cymru ailosod ei dull gweithredu trwy wneud babanod, plant a phobl ifanc yn ganolog i benderfyniadau, a thrwy gryfhau'r trefniadau deddfwriaethol, gweinyddol a sefydliadol sy'n cynnal eu hawliau.

ARGYMHELLION TROSFWAOL: **GALW AM ADNEWYDDU'R WELEDIGAETH I FABANOD, PLANT A PHOBL IFANC YNG NGHYMRU**



Mae Erthygl 4 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn gofyn bod llywodraethau'n cymryd pob cam deddfwriaethol, gweinyddol ac arall priodol i roi hawliau plant ar waith.

Yn unol â'r darpariaethau hyn, rydym ni'n cyflwyno'r argymhellion trosfwaol canlynol yn gamau gweithredu a ddylai ddarparu sylfaen ar gyfer gwaith Llywodraeth nesaf Cymru, fel rhan o alwad ehangach i wireddu hawliau plant. Gyda'i gilydd, maent yn darparu fframwaith ar gyfer sicrhau bod hawliau plant nid yn unig yn cael eu cydnabod mewn egwyddor, ond yn cael eu hadlewyrchu mewn canlyniadau gwell, gwasanaethau gwell a chyfleoedd gwell mewn bywyd i fabanod, plant a phobl ifanc ledled Cymru.



Argymhellion ►►



Cyflwyno Bil Hawliau Plant i Gymru sy'n sicrhau bod CCUHP yn cael ei ymgorffori'n llawn ac yn uniongyrchol ac yn cryfhau pwerau fy Swyddfa.

Mae Cymru wedi cael ei chydabod yn hir fel arweinydd ym maes symud hawliau plant ymlaen. Fodd bynnag, mae angen amddiffyniad cyfreithiol a mecanweithiau atebolrwydd cryfach i sicrhau bod hawliau plant yn cael eu gwireddu'n gyson mewn ffordd ymarferol.

Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno Bil Hawliau Plant i Gymru, gan ddarparu ar gyfer ymgorffori'n llawn Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yng nghyfraith Cymru. Byddai hynny'n helpu i sicrhau bod hawliau plant yn cael eu gwreiddio ar draws deddfwriaeth, wrth lunio polisi ac wrth gyflwyno gwasanaethau cyhoeddus, a bod cyrff cyhoeddus yn cael cyfarwyddyd i weithredu mewn modd sy'n gydnaws â hawliau plant.

Fel rhan o'r fframwaith deddfwriaethol hwn, dylai pwerau, cylch gorchwyl ac annibyniaeth Comisiynydd Plant Cymru gael eu cryfhau hefyd, yn unol ag Egwyddorion Paris. Dylai hynny gynnwys sicrhau bod fy Swyddfa yn cael ei hariannu gan y Senedd, ac yn atebol iddi, estyn y cyrff cyhoeddus sy'n rhan o'm cylch gorchwyl, a chryfhau'r pwerau sy'n ofynnol i hybu a diogelu hawliau plant yn fwy effeithiol.

2

Penodi Gweinidog penodedig ar gyfer Babanod, Plant a Phobl Ifanc

Dylanwadir ar fywydau plant gan benderfyniadau a wneir ar draws pob rhan o'r llywodraeth, ond mae'r cyfrifoldeb am faterion plant yn aml yn ddarniog. Dylid creu Gweinidog uwch, penodedig ar gyfer Babanod, Plant a Phobl Ifanc er mwyn rhoi arweiniad gweladwy ar draws y llywodraeth, hyrwyddo hawliau plant ar lefel y Cabinet, a chydlynu'r gweithredu ar draws portffolios gweinidogol, gan sicrhau bod lles plant a phobl ifanc yn dal yn ganolog wrth wneud penderfyniadau.

3

Cyhoeddi Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Babanod, Plant a Phobl Ifanc

Mae ar Gymru angen un cynllun trawslywodraethol sy'n cyflwyno gweledigaeth glir hirdymor ar gyfer babanod, plant a phobl ifanc. Dylai cynllun o'r fath sefydlu canlyniadau clir, cerrig milltir, a threfniadau atebolrwydd; gan gyfuno gweithredu ar draws tlodi, iechyd, addysg, gofal cymdeithasol, diogelu, tai a thrafnidiaeth. Gyda chefnogaeth ac arweiniad cryf gan weinidogion a pherchnogaeth ar draws y llywodraeth, byddai'n darparu fframwaith clir a fyddai'n golygu bod modd mesur a chraffu ar gynnydd.

4

Mabwysiadu Dull Gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant ar gyfer Cyllidebu Cyhoeddus

Cyllidebau sy'n pennu sut caiff blaenoriaethau eu troi'n weithredu. Nid oes modd gwireddu hawliau plant heb fuddsoddi'n ddigonol.

Dylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu dull gweithredu seiliedig ar Hawliau Plant ar gyfer Cyllidebu Cyhoeddus, gan sicrhau bod penderfyniadau gwario yn cael eu hasesu fel mater o drefn yn erbyn eu heffaith ar hawliau plant, eu llesiant a'u cyfleoedd mewn bywyd. Dylai hynny gynnwys mwy o dryloywder ynghylch buddsoddi mewn babanod, plant a phobl ifanc, craffu manylach ar benderfyniadau gwario, a chysylltiad agosach rhwng cyllidebu ac asesu effaith ar hawliau plant.

5

Gwella Asesiadau Effaith ar Hawliau Plant

Rhaid i ystyriaethau hawliau plant gael eu gwreiddio yn holl benderfyniadau'r llywodraeth, yn hytrach na'u trin fel ymarferiad gweithdrefnol. Dylai Llywodraeth Cymru gryfhau ei dull o gyflawni Asesiadau Effaith ar Hawliau Plant, fel prif fecanwaith ar gyfer darparu tystiolaeth o gyflawni'r ddyletswydd statudol i Weinidogion roi sylw dyledus i CCUHP, gan sicrhau eu bod yn cael eu cynnal yn gyson, eu cyhoeddi fel mater o drefn, a'u defnyddio i ddylanwadu ar ddatblygiad polisi yng nghyfnodau cynharaf y broses o wneud penderfyniadau.

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, testun pryder i mi oedd y ffaith bod cyfarfodydd Grŵp Cyngori Llywodraeth Cymru ar Hawliau Plant yn aml yn cael eu canslo. Mae rôl bwysig i'r Grŵp yn darparu cyngor annibynnol, her a chraffu mewn perthynas â gweithredu hawliau plant ar draws y llywodraeth. Dylai Llywodraeth Cymru gryfhau'r mecanweithiau sy'n cefnogi asesiadau effaith ar hawliau plant a'u gweithredu.

Cryfhau Cyfranogiad a Strwythurau Cyfranogiad

Mae Erthygl 12 o CCUHP yn cydnabod hawl plant a phobl ifanc i fynegi eu barn, a bod y farn honno'n cael sylw dyledus mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw. Mae cyfranogiad ystyrllon yn un o gonglfeini dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant wrth lunio polisi a chyflwyno gwasanaethau cyhoeddus. Ar hyd fy nghyfnod fel Comisiynydd, mae plant a phobl ifanc wedi dangos yn gyson eu parodrwydd a'u gallu i gyfrannu at benderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau. Fodd bynnag, yn rhy aml mae cyfranogiad yn cael ei drin fel ymarferiad untro, yn hytrach nag fel rhan arferol o wneud penderfyniadau.

Dylai Llywodraeth Cymru gryfhau strwythurau cyfranogiad ar lefel genedlaethol a lleol, gan sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael cyfleoedd ystyrllon i ddylanwadu ar benderfyniadau. Dylai hynny gynnwys dull gweithredu mwy cydlynus a phwyllog wrth ddatblygu polisi, gan gynnwys plant a phobl ifanc ym mhob cam o ddatblygu, gweithredu a gwerthuso polisi. Byddai cryfhau strwythurau cyfranogiad yn helpu i sicrhau bod lleisiau plant yn llywio penderfyniadau, yn gwella ansawdd polisi a gwasanaethau, ac yn gwireddu hawliau plant yn ymarferol.

Gwella'r Gwerthuso a'r Atebolrwydd i Blant a Phobl Ifanc


Mae gwella bywydau plant yn galw am gynnal ffocws, atebolrwydd tryloyw a gwerthuso effeithiol. Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu canlyniadau, dangosyddion a threfniadau adrodd cenedlaethol clir ar gyfer babanod, plant a phobl ifanc, fel bod modd mesur cynnydd yn dryloyw a chraffu'n effeithiol arno.

Dylai Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Babanod, Plant a Phobl Ifanc gael ei gefnogi gan adroddiadau blynyddol ar gynnydd, craffu annibynnol ar gyflwyno, ac asesiad clir i weld a yw'r canlyniadau i fabanod, plant a phobl ifanc yn gwella. Ni ddylai atebolrwydd ganolbwyntio ar weithgarwch yn unig, ond ar welliannau mesuradwy i fywydau plant.

Dylai atebolrwydd estyn yn uniongyrchol hefyd i blant a phobl ifanc. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod cynnydd yn cael ei adrodd yn ôl yn rheolaidd i blant a phobl ifanc, a hynny mewn ffyrdd hygrych, oed-briodol, gan ddangos sut mae eu barn wedi dylanwadu ar benderfyniadau a pha wahaniaeth mae'r camau a gymerwyd gan y llywodraeth wedi'i wneud. Dylai plant a phobl ifanc fedru deall nid yn unig pa ymrwymïadau a wnaed ar eu rhan, ond a yw'r ymrwymïadau hynny'n cael eu cyflawni.

Gan adeiladu ar ei weithgareddau craffu presennol, hoffwn weld Senedd leuenticid Cymru yn cynyddu ei rôl o ran galw Llywodraeth Cymru i gyfrif ynghylch y cynnydd ar ymrwymïadau i fabanod, plant a phobl ifanc. Yn hytrach na dibynnu ar y trefniant presennol yn unig, lle mae Llywodraeth Cymru yn ymateb i adroddiadau unigol, gellid cyflwyno mecanwaith oedd yn gofyn bod Llywodraeth Cymru yn adrodd yn rheolaidd i Senedd leuenticid Cymru. Dylai'r Senedd archwilio pob dull posibl i gryfhau Senedd leuenticid Cymru. Gallai hynny olygu cyflwyno deddfwriaeth wedi'i thargedu i wneud Senedd leuenticid Cymru yn gorff statudol, neu fel arall, gellid gwreiddio'r trefniadau atebolrwydd penodol hyn yn uniongyrchol yn Rheolau Sefydlog y Senedd. yflwyno gofyniad i Lywodraeth Cymru adrodd yn rheolaidd i Senedd leuenticid Cymru. Byddai hynny'n cryfhau tryloywder ac yn sicrhau bod lleisiau plant yn cael eu clywed mewn ffordd ystyrllon, a bod hawliau plant yn cael eu gwireddu'n ymarferol, yn ogystal â'u diogelu a'u hybu.

MATERION POLISI THEMATIG AC ARGYMHELLION I LYWODRAETH CYMRU





Tlodi plant

Parhaodd taelo tlodi yn un o flaenoriaethau strategol fy Swyddfa yn ystod 2025/26. Er bod tlodi plant yn dal yn un o'r rhwystrau pennaf i hawliau plant yng Nghymru, nid yw'r gyfradd tlodi plant yng Nghymru wedi newid braidd dim yn ystod y degawd diwethaf. Er fy mod yn cydnabod nad oes gan Lywodraeth Cymru yr holl offer ariannol a pholisi i fynd i'r afael â thlodi plant, a bod camau cadarnhaol wedi cael eu cymryd mewn rhai meysydd, mae'r cynnydd wedi bod yn rhy araf. Mae angen llawer mwy o uchelgais os yw Cymru i leihau tlodi plant yn ystrolon a gwella cyfleoedd babanod, plant a phobl ifanc mewn bywyd.

Ym mis Medi 2025, fe wnes i ddarparu tystiolaeth i ymchwiliad Pwyllgor Dethol Gwaith a Phensiynau Senedd y Deyrnas Unedig i strategaeth tlodi plant ddrafft Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Fe wnes i amlygu'r angen am weithredu mewn meysydd polisi neilltuedig, pwysigrwydd cynnwys cymdeithas sifil wrth ddatblygu'r strategaeth, a gwerth sicrhau bod lleisiau a phrofiadau plant yn llywio'r penderfyniadau a wneir.

Fe wnes i ymateb hefyd i Adroddiad Cynnydd Llywodraeth flaenorol Cymru ar Strategaeth Tlodi Plant 2025. Er fy mod i'n croesawu'r meysydd lle gwnaed cynnydd, fe wnes i amlygu'r angen am weithredu pellach, gan gynnwys cyflwyno Taliad i Blant Cymru, adolygu'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr, a chryfhau'r prydau ysgol am ddim sy'n cael eu cynnig mewn ysgolion uwchradd. Adlewyrchwyd y blaenoriaethau hyn yn fy Maniffesto i Blant a Phobl Ifanc a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2025, cyn etholiadau'r Senedd yn 2026.

Yn ystod y cyfnod adrodd, cyhoeddodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig y byddai'n dileu'r terfyn dau blentyn ar Gredyd Cynhwysol, cam pwysig a ddylai helpu i godi mwy o blant a theuluoedd allan o dlodi. Yn awr mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru wneud popeth o fewn ei gallu i sicrhau bod gan blant a theuluoedd fwy o arian i brynu hanfodion bywyd, lleihau cost y diwrnod ysgol, a sicrhau eu bod yn cael cefnogaeth i dalu am gostau tai.

Argymhellion

Nid yw'r argymhellion isod yn newydd. Maent yn adlewyrchu argymhellion a wnaed yn fy Adroddiad Blynyddol blaenorol a gwaith polisi dilynol. Rwy'n siomedig na wnaed digon o gynnydd i roi sylw i'r materion hyn. O ystyried effaith barhaus tlodi ar hawliau plant, eu llesiant a'u cyfleoedd mewn bywyd, rwy'n ailadrodd yr argymhellion hyn ac yn annog Llywodraeth nesaf Cymru i weithredu arnynt fel mater o flaenoriaeth:



8 Datblygu Strategaeth Tlodi Plant newydd gyda thargedau, cerrig milltir a threfniadau atebolrwydd clir, a lywiyd gan farn a phrofiadau plant a phobl ifanc.



9 Cyflwyno Taliad i Blant Cymru, tebyg i'r un sydd ar gael yn yr Alban, yn offeryn ychwanegol i helpu i godi babanod, plant a theuluoedd allan o dlodi.



10 Estyn cymhwysedd i dderbyn prydau ysgol am ddim i'r holl ddysgwyr ysgol uwchradd mewn teuluoedd sy'n derbyn Credyd Cynhwysol, gyda llwybr clir at ddarpariaeth i bawb mewn ysgolion uwchradd.



11 Cynyddu incwm teuluoedd trwy wella mynediad at fudd-daliadau a'r hyn y gellir ei hawlio yng Nghymru, gan gyflymu'r broses o gyflwyno siarter budd-daliadau Cymru, a sicrhau bod pob teulu cymwys yn gallu cyrchu'r cymorth sydd ar gael iddyn nhw yn hwylus.



12 Adolygu polisi a chanllawiau tai a digartrefedd trwy lens hawliau plant, a chael eu llywio gan leisiau a phrofiadau plant a theuluoedd, gan sicrhau bod plant a theuluoedd sy'n profi ansicrwydd tai yn derbyn y cymorth angenrheidiol a bod y canllawiau perthnasol yn adlewyrchu'n benodol y rhwymedigaethau a nodir yn CCUHP.



Addysg

Mae addysg yn dal yn un o feysydd mwyaf sylweddol fy ngwaith polisi a'm gwaith achosion. Mae plant a phobl ifanc yn dweud wrthyf fi'n gyson am bwysigrwydd teimlo'n ddiogel, eu bod yn cael eu cefnogi a'u cynnwys yn yr ysgol, a'u bod yn gallu cyrchu'r cymorth angenrheidiol i ddysgu a ffynnu.

Yn ystod 2025/26, bu fy Swyddfa yn gweithio ar nifer o faterion oedd yn effeithio ar ddysgwyr, gan gynnwys Anghenion Dysgu Ychwanegol, llywodraethiant ysgolion, ymddygiad yn yr ysgol, prosesau cwynion, a thaclo bwllo a gwahaniaethu yn erbyn pobl. Er bod y rhain i gyd yn faterion gwahanol, mae un cwestiwn cyffredin yn dod â nhw at ei gilydd: ydy'r system addysg yn llwyddo'n gyson i gyflawni hawliau plant a diwallu anghenion pob dysgwr?

Ar draws y meysydd hyn, rwy'n dal i glywed pryderon am anghysondeb, atebolrwydd a mynediad at gefnogaeth. Mae'r adrannau sy'n dilyn yn amlinellu'r camau rwy'n credu sy'n angenrheidiol i sicrhau bod pob dysgwr yn gallu elwa o system addysg sy'n gynhwysol, yn parchu hawliau ac yn ymateb i'w hanghenion.

Anghenion Dysgu Ychwanegol

Mae achosion sy'n ymwneud â dysgwyr sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) yn dal yn gyfran sylweddol o'n gwaith achosion ac yn faes hynod gymhleth.

Yn ystod y cyfnod adrodd, bu nifer o ddarnau pwysig o waith yn archwilio gweithrediad y system ADY. Daeth adolygiad Llywodraeth Cymru o'r Fframwaith Deddfwriaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol i ben ym mis Hydref 2025, a chydnabod bod heriau'n parhau yn y system. Ymhlith y rhain mae cymhwyso'r diffiniadau o ADY a Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY), ynghyd â'r angen am well mynediad at wybodaeth a chymorth i deuluoedd. Bu'r adolygiad hefyd yn ystyried gwasanaethau eiriolaeth a ddarperir i blant a theuluoedd o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (ALNET) ac rydyn ni'n ymwybodol bod Archwilio Cymru hefyd wedi cael eu comisiynu i ystyried cynaliadwyedd y system.

Cyhoeddodd Tribiwnlys Addysg Cymru (ETW) hefyd eu hadroddiad eu hunain, yn amlgy 10 mater allweddol. Mae llawer o'r rhain yn adlewyrchu pryderon a godir yn rheolaidd gyda'm Swyddfa gan blant, pobl ifanc a theuluoedd sy'n cael hyd i ffordd drwy'r hyn a ddisgrifiwyd gan ETW fel system sy'n "ddeallusol heriol".

Yn ystod cyfnod yr adolygiad, daliodd fy Swyddfa ati i arsylwi cyfarfodydd Grŵp Llywio Cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar Ddiwygio ADY, a chyfluniad newydd Bwrdd Cenedlaethol Cyflawni a Gwella ADY. Yr hyn sy'n drawiadol yw'r lefel o gysondeb yn yr adborth o adolygiadau a chan randdeiliaid a theuluoedd. Mae'r dystiolaeth yn cyfeirio'n gynyddol at yr un casgliad: mae'r gweithredu'n dal yn anghyson, ac nid yw'r system eto yn cyflawni'r gwelliannau o ran profiadau a chanlyniadau a addawyd i blant, pobl ifanc a theuluoedd.

Argymhellion

- 13** Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canfyddiadau eu hadolygiad o wasanaethau eiriolaeth ADY, ynghyd â'u hymateb a'r camau nesaf clir i roi sylw i unrhyw rwystrau a nodwyd i gyrchu eiriolaeth effeithiol ar gyfer plant, pobl ifanc a theuluoedd.
- 14** Dylai Llywodraeth Cymru ymateb i'r argymhellion sy'n deillio o adolygiad Archwilio Cymru, gan gynnwys ystyried cynaliadwyedd a thryloywder ariannu ADY ac a yw'r trefniadau ariannu presennol yn ddigonol i gyflwyno'r system ADY fel y bwriadwyd.
- 15** Dylai Llywodraeth Cymru ymateb i adroddiad Tribiwnlys Addysg Cymru a blaenoriaethu gweithredu ar Faterion Allweddol 1 a 2: cymhwyso'r diffiniad o ADY a nodi beth yw elfennau'r Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol. Dylid nodi sut bydd cysondeb gweithredu ALNET yn cael ei wella ledled Cymru, a sut bydd y system yn cael ei gwneud yn haws i blant, pobl ifanc a theuluoedd ei deall a chael hyd i ffordd drwyddi.

Llywodraethiant Ysgolion

Yn dilyn fy ngalwad am adolygiad o lywodraethiant ysgolion, comisiynodd Llywodraeth Cymru adolygiad o sut mae ysgolion yn cael eu llywodraethu. Fel aelod o grŵp cyfeirio'r adolygiad, fe alwais am sicrhau bod cwmplas yr adolygiad yn cynnwys ystyried gwella amrywiaeth llywodraethwyr ysgol ac edrych ar y posibilrwydd o dalu llywodraethwyr ysgol.

Daw'r adolygiad hwn ar adeg arwyddocaol i addysg yng Nghymru. Mae'r troseddau a gyflawnwyd gan Neil Foden wedi codi cwestiynau pwysig am lywodraethiant, atebolrwydd, trosolwg a diogelu mewn ysgolion. Er nad yw'r adolygiad yn ymateb i'r digwyddiadau hynny yn unig, mae'n gyfle pwysig i ystyried a yw trefniadau llywodraethu presennol yn darparu'r her, yr arbenigedd a'r craffu angenrheidiol i gefnogi arweinyddiaeth effeithiol a diogelu plant a phobl ifanc.

Rwyf wedi bod yn eglur bod hwn yn gyfle unwaith mewn cenhedlaeth i ystyried pob opsiwn posibl ar gyfer dyfodol llywodraethiant ysgolion. Ni ddylid diystyru unrhyw beth. Dylai'r adolygiad fod yn uchelgeisiol wrth archwilio sut gall trefniadau llywodraethu gefnogi arweinyddion ysgol yn well, cryfhau atebolrwydd, gwella diogelu a sicrhau bod profiadau a lleisiau dysgwyr yn cael eu hadlewyrchu'n ystyrion wrth wneud penderfyniadau.

Argymhelliad

- 16** Rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod yr adolygiad o lywodraethiant ysgolion yn archwilio'n llawn a yw'r trefniadau llywodraethu presennol yn darparu digon o arbenigedd, her, trosolwg ac atebolrwydd. Dylai ddefnyddio'r cyfle hwn i ystyried pob opsiwn ar gyfer diwygio a sicrhau bod trefniadau'r dyfodol yn gallu cefnogi arweinyddiaeth gref, diogelu effeithiol a chyfranogiad ystyrion gan ddysgwyr.

Cwynion ysgol

Yn 2024/25, cynhaliodd fy Swyddfa brosiect oedd yn archwilio cwynion ysgol, a gwnaed sawl argymhelliad yn fy adroddiad blynyddol blaenorol. Trwy'r gwaith hwn, dywedodd teuluoedd wrthyf fi nad oedd ganddyn nhw hyder yn y broses gwynion, yn enwedig lle roedden nhw'n teimlo nad oedd cyrff llywodraethu ysgolion yn herio'n ddigonol nac yn craffu'n annibynnol ar benderfyniadau arweinwyr ysgol.

Yn ystod 2025/26, parhaodd fy Ngwasanaeth Cyngor a Chymorth i dderbyn achosion oedd yn adlewyrchu llawer o'r un pryderon. Soniodd teuluoedd am anawsterau'n deall y broses gwynion, ansicrwydd ynghylch sut byddai cwynion yn cael eu hystyried, a diffyg hyder y byddai eu pryderon yn derbyn sylw annibynnol neu effeithiol.

Mae proses gwynion effeithiol yn rhan bwysig o atebolrwydd ym myd addysg. Dylai fod yn dryloyw, yn hygyrch ac yn ddealladwy i bawb sy'n ei defnyddio. Hefyd dylai plant a phobl ifanc fedru deall y broses, gwybod beth yw eu hawliau a chael mynediad at gefnogaeth briodol wrth godi pryderon.

Argymhelliad

- 17** Rhaid i Lywodraeth Cymru weithio'n gyflym i gyhoeddi'r canllawiau diwygiedig ar gwynion ysgol cyn gynted â phosibl. Dylai hefyd gynhyrchu canllawiau hwylus ar wahân i blant a phobl ifanc, ochr yn ochr â'r canllawiau i achwynwyr sy'n oedolion, er mwyn sicrhau bod y broses gwynion yn hygyrch, yn dryloyw ac yn parchu hawliau pawb.

Ymddygiad yn yr ysgol

Parhaodd ymddygiad yn yr ysgol yn destun trafod sylweddol yn ystod y cyfnod adrodd. Ym mis Mai 2025, cynullodd yr Ysgrifennydd Cabinet dros Addysg Uwchgynhadledd ar Ymddygiad, gan ddod â rhanddeiliaid ynghyd i ystyried ymddygiad mewn ysgolion a'r ffactorau sy'n dylanwadu arno.

Thema allweddol oedd yn dod i'r amlwg yn y trafodaethau oedd pwysigrwydd cydnabod ymddygiad fel dull cyfathrebu. Amlygodd y cyfranwyr effaith ffactorau cymdeithasol ehangach ar ymddygiad, yr angen am weithio cryfach ar y cyd rhwng asiantaethau, gan gynnwys rhai statudol a gwirfoddol, a phwysigrwydd data gwell er mwyn deall tueddiadau, profiadau a chanlyniadau.

Nid yw plant a phobl ifanc yn profi polisïau ymddygiad wedi'u hynysu oddi wrth agweddau eraill ar eu bywydau. Gall ffactorau megis tlodi, iechyd meddwl, anghenion dysgu ychwanegol, gwahaniaethu yn eu herbyn a phrofiadau niweidiol i gyd ddylanwadu ar ymddygiad ac ymgysylltiad ag addysg. Rhaid i unrhyw ymateb cenedlaethol i ymddygiad, felly, adlewyrchu cymhlethdod profiadau plant a sicrhau bod cefnogaeth ar gael yn gyfannol ar draws gwasanaethau.

Mae'r fframwaith ymddygiad cenedlaethol arfaethedig yn gyfle i ddatblygu dull gweithredu mwy cyson a chynhwysol ledled Cymru, wedi'i lywio gan brofiadau dysgwyr eu hunain.

Argymhellion ►►►

18

Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y gwaith i ddatblygu'r fframwaith ymddygiad cenedlaethol yn mabwysiadu dull gweithredu ar draws y llywodraeth ac yn cael ei lywio gan brofiadau dysgwyr, gan gynnwys dysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol a phlant a phobl ifanc o grwpiau â nodweddion gwarchodedig, fel ei fod yn adlewyrchu profiadau ac anghenion amrywiol dysgwyr ledled Cymru.

19

Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau ymddygiad wedi'u diweddarau i ysgolion fel rhan o'r fframwaith cenedlaethol, gan nodi disgwyliadau clir a chefnogaeth ymarferol i helpu ysgolion i ymateb yn gyson i ymddygiad, llesiant a chynhwysiad.

Taclo Bwlio a Gwahaniaethu yn erbyn Pobl

Mae taclo bwlio a gwahaniaethu yn erbyn pobl wedi bod yn flaenoriaeth i'm Swyddfa a'm rhagflaenwyr ers meitin. Yn 2023, fe wnes i gyhoeddi adroddiad ar brofiadau plant o hiliaeth mewn ysgolion uwchradd, gan amlygu'r effaith sylweddol y gall hiliaeth ei chael ar lesiant dysgwyr, eu hymdeimlad o berthyn a'u profiadau addysgol. Gwaetha'r modd, mae plant a phobl ifanc yn dal i ddweud wrthyf fi fod bwlio a gwahaniaethu'n parhau i ddigwydd yn eu bywydau. Rwy'n dal i glywed pryderon am hiliaeth, homoffobia, trawsffobia, agwedd negyddol at fenywod a mathau eraill o fwlio ar sail hunaniaeth, a'r effaith y gall y profiadau hyn ei chael ar hyder a llesiant plant, a'u cyfranogiad ym mywyd yr ysgol.

Ar ôl cyhoeddi fy adroddiad ar brofiadau plant o hiliaeth mewn ysgolion uwchradd, rwyf wedi parhau i ymgysylltu â swyddogion Llywodraeth Cymru ynghylch yr angen am ddull mwy effeithiol o gofnodi ac ymateb i ddigwyddiadau hiliol mewn ysgolion. Nid mater newydd yw hwn. Mae fy Swyddfa, a'm rhagflaenwyr, wedi codi pryderon droeon ynghylch y diffyg data cyson ar fwlio a gwahaniaethu, ac effaith hynny ar atebolrwydd a gwella ysgolion.

Ac eto mae plant a phobl ifanc yn parhau i rannu profiadau o fwlio ar sail rhagfarn, ac rydyn ni'n dal heb fecanwaith cenedlaethol ar gyfer cofnodi a riportio digwyddiadau ar draws yr holl nodweddion gwarchodedig. Heb ddata cynhwysfawr, mae'n anodd deall graddfa a natur y broblem, nodi tueddiadau sy'n dod i'r amlwg nac asesu a yw'r camau sy'n cael eu cymryd gan ysgolion, awdurdodau lleol a Llywodraeth Cymru yn gwneud gwahaniaeth. Rhaid i Lywodraeth Cymru afael yn y mater hwn nawr, a chyflwyno dull gweithredu mwy cadarn, cyson a chenedlaethol o gofnodi a riportio bwlio ar sail rhagfarn ledled Cymru.

Ategwyd y pryder hwn trwy ymgysylltu a wnaed i lywio fy ymateb i'r diweddariad i ganllawiau Llywodraeth Cymru ar Hawliau, Parch a Chydraddoldeb. Dywedodd plant a phobl ifanc wrthyf fi fod rhai athrawon yn brin o hyder wrth drafod materion oedd yn ymwneud â nodweddion gwarchodedig, ac nad ydyn nhw bob amser yn teimlo wedi'u paratoi'n ddigonol i ymateb i fwlio ar sail hunaniaeth pan fydd yn digwydd. Dangosodd tensiynau yn erbyn mewnfudwyr yn y gymuned, a waethygodd ar hyd haf 2025, fod hwn yn fater na fydd yn diflannu.

Yn y cyd-destun hwn, mae gan y sector gwaith ieuenctid rôl bwysig i'w chwarae. Mae pobl ifanc yn dweud yn gyson wrth fy Swyddfa eu bod yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth anffurfiol, ar sail perthynas, mae gweithwyr ieuenctid yn ei darparu, yn enwedig wrth drafod materion fel hunaniaeth, perthnasoedd a gwahaniaethu yn eu herbyn. Mae gweithwyr ieuenctid yn aml yn dod â gwybodaeth arbenigol ac arbenigedd sy'n gallu cydweddu â gwaith ysgolion a helpu i greu mannau diogel lle mae pobl ifanc yn teimlo'n gyfforddus yn ceisio cyngor a chymorth.

Amlygwyd pwysigrwydd y mannau hyn ymhellach yn ystod trafodaethau am gyfyngiadau posibl ar fynediad plant at y cyfryngau cymdeithasol. Er fy mod yn cefnogi mesurau i wella diogelwch plant ar-lein, rhaid cyfateb i unrhyw gamau a gymerir i gyfyngu ar gysylltiadau ar-lein drwy fuddsoddi mwy mewn cyfleoedd i blant a phobl ifanc gwrdd, cyfranogi a chyrchu cefnogaeth wyneb yn wyneb. Mae hynny'n cynnwys sicrhau bod gwasanaethau gwaith ieuenctid yn derbyn adnoddau digonol, cynaliadwy i ymateb yn effeithiol i'r newid hwn.

Argymhellion ►►

20 Rhaid i Lywodraeth Cymru gyflwyno deddfwriaeth newydd fydd yn cyflwyno dyletswydd statudol fel bod gofyn bod pob ysgol yn cofnodi achosion o fwlio a gwahaniaethu yn erbyn pobl ar sail nodweddion gwarchodedig. Dylai'r wybodaeth hon gael ei riportio i'r awdurdodau lleol i gefnogi gwella ysgolion, gan riportio'r data a gyfunwyd wedyn i Lywodraeth Cymru. Dylai'r fframwaith sy'n deillio o hynny ddarparu dealltwriaeth gliriach o brofiadau plant a phobl ifanc, a chryfhau atebolrwydd o ran tacio bwlio seiliedig ar ragfarnau ledled Cymru.

21 Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r sector Gwaith Ieuenctid i ddatblygu a pheilotu rhaglen genedlaethol o gefnogaeth arbenigol. Dylai hynny ddefnyddio arbenigedd gweithwyr ieuenctid i hybu cydweithio strategol rhwng ysgolion a gwasanaethau ieuenctid. Dylai ysgolion a gwasanaethau ieuenctid gydweithio i ddatblygu a chyflwyno rhaglenni dysgu sy'n ymdrin â hiliaeth, homoffobia, trawsffobia, agwedd negyddol at fenywod a mathau eraill o wahaniaethu yn erbyn pobl; gan sicrhau bod gan bobl ifanc fynediad at oedolion maen nhw'n ymddiried ynddyn nhw, gwybodaeth o safon uchel a mannau diogel ar gyfer cefnogaeth a thrafodaeth.



Cydraddoldeb

Ar hyd y flwyddyn, mae fy Swyddfa wedi parhau i ymgysylltu â Llywodraeth Cymru ar ystod o ddatblygiadau polisi cysylltiedig â chydraddoldeb. Thema gyson ar draws y gwaith hwn oedd yr angen am sicrhau bod plant a phobl ifanc o grwpiau sy'n wynebu gwahaniaethu yn eu herbyn ac anfantais nid yn unig yn cael eu hystyried wrth ddatblygu polisi, ond yn ymwneud yn rhagweithiol â'i lywio

Cydluniant Cymunedol

Yn fy Adroddiad Blyneddol blaenorol, fe wnes i amlygu pwysigrwydd sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael cyfleoedd ystyrlon i gyfrannu at y trefniadau llywodraethiant ac atebolrwydd sy'n gysylltiedig â Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol (ArWAP). Er i Lywodraeth Cymru dderbyn fy argymhelliad i sefydlu mecanwaith oedd yn golygu y gallai plant a phobl ifanc gyfrannu at drosolwg o ArWAP a chraffu arno, rwy'n pryderu bod y cynnydd at roi hynny ar waith wedi bod yn gyfyngedig.

Mae hiliaeth, cydluniant cymunedol, mudo a noddfa yn dal yn faterion pwysig, byw i lawer o blant a phobl ifanc ledled Cymru. Os yw Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod lleisiau plant yn llywio polisi a phenderfyniadau, rhaid i blant a phobl ifanc gael rôl ystyrlon, barhaus wrth graffu ar y camau gweithredu hyn.

Argymhelliad ►►►

- 22** Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu mecanwaith ffurfiol i blant a phobl ifanc gyfrannu at lywodraethiant ac atebolrwydd Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, gan adlewyrchu rôl y Grŵp Atebolrwydd Allanol.

Cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr

Yn ystod y cyfnod adrodd, ymatebodd fy Swyddfa i sawl ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru ar ganllawiau diwygiedig ynghylch llety Sipsiwn a Theithwyr, rheoli safleoedd a gwersylloedd heb eu hawdurdodi. Roedd yr ymgynghoriadau hyn yn gyfle pwysig i eiriol dros ddull gweithredu seiliedig ar hawliau plant, a sicrhau bod anghenion, profiadau a lleisiau plant Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn cael eu hadlewyrchu mewn polisi ac ymarfer.

Er fy mod yn croesawu ymgysylltiad parhaus Llywodraeth Cymru â chymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, rwy'n dal i bryderu am y cynnydd cyfyngedig o ran creu cyfleoedd ystyrlon i blant a phobl ifanc o'r cymunedau hyn ddylanwadu ar bolisi a phenderfyniadau. Nid pryder newydd yw hwn. Mewn Adroddiadau Blyneddol blaenorol, rwyf wedi galw am fecanweithiau a fyddai'n galluogi cymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr, gan gynnwys plant a phobl ifanc, i ymgysylltu'n uniongyrchol â Llywodraeth Cymru a chyfrannu at drefniadau atebolrwydd cysylltiedig â Chynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol.

Er gwaethaf peth cynnydd o ran ymgysylltu â rhanddeiliaid sy'n oedolion, mae bwlch sylweddol yn parhau o ran sicrhau bod profiadau a safbwyntiau plant a phobl ifanc Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn cael eu clywed, yn destun gweithredu ac yn cael eu hadlewyrchu wrth ddatblygu polisi. Mae cyfranogiad ystyrlon yn galw am fwy nag ymgynghori; mae angen strwythurau parhaus er mwyn i blant a phobl ifanc fedru dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.

Argymhelliad ►►►

- 23** Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu fforwm ymgysylltiad penodedig, hygyrch ac ystyrlon yn benodol ar gyfer plant a phobl ifanc Sipsiwn, Roma a Theithwyr. Dylai hynny eu galluogi i dderbyn y newyddion diweddaraf am gynnydd, codi pryderon, rhannu profiadau, a chyfrannu'n uniongyrchol at ddatblygu polisi ac ymarfer.



Plant a Phobl Ifanc Anabl

Fe wnes i groesawu cyhoeddi Cynllun Hawliau Pobl Anabl Llywodraeth Cymru a'r ymrwymiad o'r newydd i wella bywydau pobl anabl trwy ddull gweithredu seiliedig ar hawliau. Cyfrannodd fy Swyddfa at ddatblygiad y Cynllun, gan sicrhau bod profiadau a hawliau plant a phobl ifanc anabl yn cael eu hadlewyrchu ar hyd y broses. Fodd bynnag, i gyd-fynd â chyhoeddi'r Cynllun mae'n rhaid cael cyfleoedd ystyrlon i blant a phobl ifanc anabl ddylanwadu ar ei weithrediad. Mae plant a phobl ifanc anabl yn ddeiliaid hawliau eu hunain, ac mae ganddyn nhw brofiadau a blaenoriaethau unigryw y mae'n rhaid rhoi sylw iddynt mewn trafodaethau ehangach ynghylch hawliau anabled.

Mae'r Cynllun yn ymrwymo i Fwrdd Ymgynghori Allanol. Er fy mod yn croesawu'r ymrwymiad hwn, nid oes mecanwaith ar hyn o bryd i blant a phobl ifanc gyfrannu eu barn yn ffurfiol ar waith y Bwrdd. Mae perygl y bydd hynny'n gwanhau'r rôl y gall plant a phobl ifanc ei chyflawni wrth lywio gweithrediad a gwerthuso Cynllun a fydd yn effeithio'n uniongyrchol ar eu bywydau.

Argymhelliad ►►►

24 Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu fforwm benodol, hygyrch ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid, yn fodd i blant a phobl ifanc anabl gyfrannu'n ffurfiol at Fwrdd Ymgynghori Allanol y Cynllun Hawliau Pobl Anabl.

Iechyd Meddwl

Mae iechyd meddwl a llesiant yn dal ymhlith y materion a godir amlaf gyda fy Swyddfa gan blant a phobl ifanc. Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Strategaeth 10 mlynedd ar gyfer Iechyd Meddwl a Llesiant a'r Cynllun Cyflawni i gyd-fynd â hi. Fe wnes i groesawu nifer o ymrwymadau yn y Strategaeth, gan gynnwys yr ymrwymiad i ddatblygu dull newydd o gyflwyno cefnogaeth ymyrraeth gynnar, gyda golwg ar gyflwyno gofal seicolegol mynediad agored ar yr un diwrnod ledled Cymru.

Fodd bynnag, cefais fy siomi nad oedd cynllun cyflawni penodol ar gyfer iechyd meddwl a llesiant plant a phobl ifanc i gyd-fynd â'r Strategaeth. O ystyried profiadau, anghenion a hawliau unigryw plant a phobl ifanc, byddai cynllun cyflawni ar wahân yn rhoi mwy o eglurder ynghylch sut byddai'r ymrwymadau yn cefnogi plant a phobl ifanc ac yn cryfhau atebolrwydd am gyflawni a chanlyniadau.

Er bod ymyrraeth gynnar ac ataliaeth yn hanfodol, rhaid i blant a phobl ifanc hefyd fedru cael mynediad at gefnogaeth pan fyddan nhw'n profi anawsterau iechyd meddwl sylweddol neu pan fydd hi'n argyfwng arnyn nhw. Yn ystod 2025, fe fues i'n ymweld â chynlluniau peilot gwasanaeth Noddfa / Sanctuary, sy'n darparu lleoliadau anghlinigol ar gyfer plant a phobl ifanc sydd angen cefnogaeth iechyd meddwl ar frys. Fe greodd y gwasanaethau oedd yn cael eu cyflwyno gryn argraff arna i, a hefyd y gwahaniaeth cadarnhaol roedden nhw'n ei wneud i blant a phobl ifanc. Fodd bynnag, roedden i'n pryderu am gynaliadwyedd hirdymor y gwasanaethau hyn, o ystyried bod y cyllid a ddarparwyd ar eu cyfer gan Lywodraeth Cymru i ddod i ben ym mis Mawrth 2026. Mewn ymateb i hynny, fe wnes i ysgrifennu at gadeiryddion y tri bwrdd iechyd perthnasol er mwyn deall sut gellid cynnal y gwasanaethau hyn yn y dyfodol. Yn dilyn hynny, fe wnes i groesawu cael cadarnhad y byddai cyllid Llywodraeth Cymru yn parhau am flwyddyn arall.

Er bod hynny'n darparu sefydlogrwydd pwysig yn y tymor byr, mae ansicrwydd yn parhau ynghylch dyfodol hirdymor y model Noddfa. Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu'r Coleg Seiciatreg Brenhinol i werthuso'r cynlluniau peilot. O ystyried manteision posibl y gwasanaethau hyn i blant a phobl ifanc sydd mewn argyfwng, mae'n bwysig bod y gwerthusiad yn cael ei gynnal yn ddi-oed, a bod trefniadau ariannu i'r dyfodol yn cael eu hegluro cyn gynted â phosibl.

Argymhellion

- 25** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y gwerthusiad o gynlluniau peilot y gwasanaeth Noddfa yn cael ei gwblhau cyn gynted â phosibl a bod y canfyddiadau'n cael eu rhannu gyda'r rhanddeiliaid perthnasol.
- 26** Welsh Government should set out its plans for the future funding and sustainability of these services at the earliest opportunity, providing clarity to health boards, delivery partners, and staff.



Trafnidiaeth

Mae mynediad at dtrafnidiaeth fforddiadwy, dibynadwy, diogel a hygyrch yn dal yn fater pwysig i blant a phobl ifanc. Mae trafndiaeth yn golygu mwy na mynd o un lle i un arall. Mae'n galluogi hawliau plant, gan effeithio ar eu gallu i gyrraedd addysg, gofal iechyd, cyfleoedd cyflogaeth a hyfforddiant, gweithgareddau hamdden, a pherthnasoedd gyda theulu a ffrindiau.

Yn ystod 2025/26, daliodd fy Swyddfa ati i ymgysylltu â Llywodraeth Cymru a'r Senedd ynghylch trafndiaeth gyhoeddus a'r polisi teithio gan ddysgwyr. Roedd hynny'n cynnwys cyfrannu at graffu ar y Bil Gwasanaethau Bysiau (Cymru), lle gwnes i amlygu pwysigrwydd rhwydwaith bysiau cynhwysol i gefnogi mynediad plant a phobl ifanc at gefnogaeth a chyfleoedd. Fe wnes i ymateb hefyd i'r ymgynghoriad ar Ganllawiau Gweithredu Teithio gan

Ddysgwyr 2025, gan bwysleisio'r angen am ganllawiau sy'n adlewyrchu profiadau plant a phobl ifanc ac yn hybu mynediad diogel, teg a dibynadwy at addysg.

Fe wnes i groesawu cyflwyno Tocyn Person Ifanc i blant a phobl ifanc. Gall trafndiaeth gyhoeddus fforddiadwy leihau'r rhwystrau ariannol i deithio, cynyddu annibyniaeth a galluogi mwy o gyfranogiad mewn addysg, cyflogaeth, hyfforddiant, a bywyd cymunedol. Gall mwy o ddefnydd o dtrafnidiaeth gyhoeddus a llai o ddibyniaeth ar gerbydau preifat helpu hefyd i leihau allyriadau carbon, a chyfrannu at dacio'r newid yn yr hinsawdd. Mae hyn yn bwysig oherwydd bod y newid yn yr hinsawdd yn dal yn un o brif bryderon plant a phobl ifanc, sydd eisoes yn profi ei effeithiau ar eu hiechyd, eu llesiant, eu haddysg a'u cyfleoedd i chwarae a chyfranogi yn eu cymunedau.

Er bod y datblygiadau hyn yn gadarnhaol, dylid eu gweld fel y camau cyntaf tuag at wella mynediad at deithio i blant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae gormod o blant a phobl ifanc yn parhau i wynebu rhwystrau a achosir gan gostau, argaeledd a hygyrchedd trafndiaeth. Bellach mae cyfle i Lywodraeth Cymru edrych ar dtrafnidiaeth i blant a phobl ifanc mewn ffordd fwy uchelgeisiol, gan gydnabod ei rôl o ran eu galluogi i gael mynediad i'w hawliau a chyflawni eu potensial.

Argymhellion

- 27** Dylai Llywodraeth Cymru gynnal adolygiad llawn o'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 a'r canllawiau cysylltiedig, er mwyn sicrhau ei fod yn parhau'n addas at y diben ac yn adlewyrchu anghenion a phrofiadau plant a phobl ifanc.
- 28** Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu dadansoddiad cost a manteision annibynnol o gyflwyno trafndiaeth gyhoeddus ddi-dâl i holl blant a phobl ifanc Cymru, gan archwilio'r effeithiau economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol, addysgol ac o ran iechyd, ochr yn ochr â'r effeithiau ar hawliau plant.



Diogelu

Parhaodd diogelu yn ffocws pwysig i'm gwaith polisi yn ystod 2025/26. Fe ddychwelais at argymhelliad gan yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol (IISCA) oedd yn galw am sefydlu Awdurdod Amddiffyn Plant yng Nghymru. Fe wnes i ategu fy nghefnogaeth i'r argymhelliad hwn, gan gydnabod y potensial o ran Awdurdod Amddiffyn Plant o safbwynt gwella ymarfer amddiffyn plant, cynghori'r llywodraeth ar bolisi a diwygio, a darparu trosolwg annibynnol o sefydliadau a lleoliadau perthnasol.

Ochr yn ochr â hyn, fe wnes i alw ar Lywodraeth Cymru i adolygu'r trefniadau llywodraethiant ac atebolrwydd diogelu yng Nghymru, i sicrhau bod bylchau yn y system yn cael eu nodi ac yn derbyn sylw. O ganlyniad, fe wnes i groesawu'r cyhoeddiad, ddiwedd 2025, y byddai Llywodraeth Cymru yn comisiynu adolygiad o drefniadau llywodraethu diogelu yng Nghymru. Fel rhan o'm cyfraniad i'r adolygiad, fe wnes i ailadrodd ein galwad am Awdurdod Amddiffyn Plant ac amlygu'r angen am atebolrwydd a throsolwg mwy cadarn ar draws y system ddiogelu.

Roedd disgwyl i'r adolygiad gyflwyno'i adroddiad erbyn diwedd Mawrth 2026, cyn etholiad y Senedd ym mis Mai. Fodd bynnag, rydyn ni'n dal i ddisgwyl i'w argymhellion gael eu cyhoeddi. O ystyried pwysigrwydd yr adolygiad hwn a'r cyfle mae'n ei roi i gryfhau llywodraethiant diogelu yng Nghymru, mae'n bwysig bod ei ganfyddiadau'n cael eu cyhoeddi cyn gynted â phosibl.

Comisiynwyd yr adolygiad ar adeg yr Adolygiad Ymarfer Plant oedd yn gysylltiedig â throseddau Neil Foden. Mewn ymateb, sefydlodd Cyngor Gwynedd Fwrdd Ymateb i oruchwylio gwelliannau i'r trefniadau diogelu a chydlynu rhoi cynllun ymateb ar waith. Cynrychiolir fy Swyddfa ar y Bwrdd, ac fe welwyd cynnydd cadarnhaol o ran cryfhau'r trefniadau diogelu a sicrhau bod lleisiau plant a phobl ifanc yn ganolog i'w waith.

Wrth i waith y Bwrdd esblygu, mae ei ffocws wedi newid o fonitro camau gweithredu i fesur effaith, gyda mwy o bwyslais ar ddeall a yw newidiadau'n arwain at welliannau ystyrlon. Mae fy Swyddfa yn parhau i gyfrannu persbectif hawliau plant, gan rannu gwersi a ddysgwyd gan ein Gwasanaeth Cyngor a Chymorth, a rhoi adborth ar faterion sy'n cynnwys cyfranogiad, cyfathrebu hwylus i blant, a llais y plentyn wrth ddatblygu polisi.

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, bu Llywodraeth flaenorol Cymru yn ymgynghori ar ei strategaeth 10 mlynedd i dacio cam-drin plant yn rhywiol. Yn fy ymateb innau, fe wnes i amlygu'r cyfle i gryfhau llywodraethiant diogelu trwy sefydlu Awdurdod Amddiffyn Plant, a allai gefnogi cyflawni bwriadau'r strategaeth a helpu i wella cysondeb, atebolrwydd a throsolwg ledled Cymru.

Argymhelliad ►►



Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi adroddiad terfynol ac argymhellion yr Adolygiad Llywodraethiant Diogelu cyn gynted â phosibl. Mae'r adolygiad yn gyfle pwysig i gryfhau llywodraethiant diogelu, atebolrwydd a throsolwg yng Nghymru, a dylid bwrw ati gyda'i argymhellion yn ddi-oed.



Gofal cymdeithasol

Parhaodd gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal yn ffocws sylweddol i'm gwaith yn 2025/26. Yn ystod y flwyddyn, fe wnes i ymateb i ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru ar Gôd Ymarfer Rhan 6 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal ac yn cael eu Lletya, oedd yn canolbwyntio ar rianta corfforaethol. Yn fy ymateb, fe wnes i bwysleisio pwysigrwydd sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael chwarae rhan ystyrlon yn eu bywydau eu hunain, gan gynnwys adolygiadau o'u gofal a'u cymorth. Fe wnes i alw hefyd am gydnabyddiaeth gryfach i urddas plant pan fyddent yn newid lleoliad, gan gynnwys sicrhau eu bod yn cael pacio'u heiddo eu hunain, a bod bagiau addas yn cael eu darparu. Llywiyd y gwaith hwn yn uniongyrchol gan ymgysylltu â phlant a phobl ifanc trwy Grŵp Hope.

Mae hybu hawliau plant a'u cyfranogiad mewn gofal cymdeithasol wedi parhau'n flaenoriaeth hirdymor i'm Swyddfa. Ym mis Mawrth 2026, cynhaliodd fy Swyddfa gynhadledd Y Ffordd Gywir ar gyfer Gofal Cymdeithasol, gan ddod â rhanddeiliaid ynghyd ar draws y sectorau cyhoeddus a gwirfoddol i archwilio sut gall dull gweithredu seiliedig ar hawliau plant gryfhau penderfyniadau, gwella canlyniadau, a sicrhau bod lleisiau plant a phobl ifanc yn cael eu clywed ar draws y system gofal cymdeithasol. Amlygodd y gynhadledd hefyd arfer arloesol, gan gynnwys gwaith i gydnabod profiad o ofal fel nodwedd warchodedig, a dulliau o wreiddio hawliau plant mewn gwasanaethau gofal cymdeithasol.

Gan adeiladu ar y gwaith hwn, cynullodd fy Swyddfa ddigwyddiad bord gron ar bolisi gyda phartneriaid o bob rhan o Gymru er mwyn ystyried y cynnydd a wnaed yn ystod y Chweched Senedd a nodi blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol.

Er gwaethaf diwygiadau a gwelliannau pwysig yn ystod y blynyddoedd diwethaf, roedd barn gyffredin bod mwy i'w wneud o hyd i wella profiadau a chanlyniadau babanod, plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal. Daeth pedwar blaenoriaeth i'r amlwg o'r trafodaethau hyn: cynnal cynnydd o ran trawsffurfio profiadau plant o ofal, cryfhau ymyrraeth gynnar ac ataliaeth; gwella cefnogaeth i bobl ifanc sy'n pontio o ofal i oedolaeth; a sicrhau bod hawliau a lleisiau plant yn dal yn ganolog i bolisi ac ymarfer.

Ceisiodd fy Swyddfa hefyd gyflawni eu cyfrifoldebau rhianta corfforaethol eu hunain trwy gynnig profiad gwaith i berson ifanc oedd â phrofiad o ofal. Er mai menter fach yw hon, roedd yn adlewyrchu pwynt mwy cyffredinol: dylai plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal gael mynediad at yr un cyfleoedd â'u cyfoedion. Mae lle i gyrff cyhoeddus ledled Cymru weithredu'n unol â'u cyfrifoldebau rhianta corfforaethol a gwneud mwy i roi cefnogaeth well i'r grŵp yma o blant a phobl ifanc ddatblygu sgiliau, ennill profiad a chyflawni eu potensial.

Argymhellion

- 30** Dylai Llywodraeth Cymru nodi babanod, plant a theuluoedd sydd â phrofiad o ofal (ochr yn ochr â babanod, plant a theuluoedd sydd mewn cysylltiad â'r gwasanaethau cymdeithasol) fel blaenoriaeth yn eu Rhaglen Lywodraethu.
- 31** Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu Grŵp Cynghori Gweinidogol ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal, er mwyn sbarduno gwelliannau o ran polisi, ymarfer a chanlyniadau, a sicrhau bod lleisiau plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal yn llywio penderfyniadau.
- 32** Dylai Llywodraeth Cymru fynnu bod pob corff cyhoeddus yn cynnig profiad gwaith i blant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal, gan eu helpu i ddatblygu sgiliau, hyder a llwybrau i addysg, hyfforddiant a chyflogaeth yn y dyfodol.



Strwythurau Cyfranogiad

Lleol

Ystyr cyfranogiad yw sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael cyfleoedd ystyrlon i ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau, bod gwrandawriad i'w barn, a bod yn farn honno'n cael ei gwerthfawrogi ac yn destun gweithredu, fel y nodir yn Erthygl 12 o CCUHP.

Yn ystod y cyfnod adrodd hwn, bu fy Swyddfa'n ymgysylltu â phob un o'r 22 awdurdod lleol i ddeall sut mae cyfranogiad yn cael ei gyflwyno'n ymarferol. Mae'r canfyddiadau sy'n dod i'r golwg yn amlygu ymrwymiad cadarn i gyfranogiad ledled Cymru, gydag enghreifftiau o ymarfer arloesol ac effeithiol. Fodd bynnag, maent hefyd yn dangos cryn amrywiad o ran sut mae adnoddau'n cael eu darparu ar gyfer cyfranogiad, a sut mae'n cael ei wreiddio a'i drosi'n ddylanwad ystyrlon.

Er bod gan rai awdurdodau lleol strwythurau cyfranogiad sydd wedi'u sefydlu, a chapasiti wedi'i neilltuo i gefnogi ymgysylltu, mae eraill yn wynebu heriau o ran sicrhau bod cyfranogiad yn cael ei wreiddio'n gyson ar draws gwasanaethau. Mae'r canfyddiadau hefyd yn awgrymu y gall plant a phobl ifanc y clywir eu lleisiau'n llai aml, gan gynnwys plant a phobl ifanc Du, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig, a phlant a phobl ifanc anabl, wynebu rhwystrau ychwanegol i gyfranogiad a dylanwad.

Mae'r canfyddiadau hyn sy'n dod i'r amlwg yn dangos, er gwaethaf y cynnydd a wnaed, nad yw cyfranogiad eto yn cael ei brofi'n gyson gan blant a phobl ifanc ledled Cymru. Os yw cyfranogiad i ddod yn fater o drefn ac yn rhan ddisgwyliedig o wneud penderfyniadau, rhaid sicrhau gwell cysondeb yn y gefnogaeth, y capasiti a'r seilwaith sydd ar gael i awdurdodau lleol, ynghyd â ffocws mwy pendant ar gyfranogiad cynhwysol.


Argymhellion ►►

- 33** Dylai awdurdodau lleol sicrhau eu bod yn darparu adnoddau digonol, cynaliadwy ar gyfer eu strwythurau cyfranogiad, gan gynnwys staffio, capasiti a seilwaith digonol i wreiddio cyfranogiad ar draws gwasanaethau a rhoi Strategaethau Cyfranogiad lleol ar waith yn effeithiol.
- 34** Dylai awdurdodau lleol wneud gwaith wedi'i dargedu i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc y mae eu lleisiau'n cael eu clywed yn llai aml, gan gynnwys plant a phobl ifanc Du, Asiaidd ac o leiafrifoedd ethnig, plant a phobl ifanc anabl, a grwpiau eraill sy'n wynebu rhwystrau i gyfranogiad. Dylid cefnogi hynny â chyllid wedi'i neilltuo a disgwyliadau clir o ran cyfranogiad cynhwysol.
- 35** Dylai Llywodraeth Cymru adolygu effeithiolrwydd dyletswyddau statudol sydd eisoes yn bodoli yng nghyswllt cyfranogiad plant, ac ystyried a oes angen mesurau deddfwriaethol, polisi neu atebolrwydd pellach i sicrhau eu bod yn cael eu rhoi ar waith yn gyson ar draws holl awdurdodau lleol Cymru.

EIN HYMRWYMIADAU CYDRADDOLDEB

Mae yna rai safonau cenedlaethol a dyletswyddau mae'n rhaid i ni gadw atynt fel corff cyhoeddus, gan gynnwys Safonau'r Gymraeg a'r Ddeddf Cydraddoldeb. Byddwn ni hefyd yn adrodd eleni ar yr ymrwymiadau rydyn ni wedi'u gwneud fel rhiant corfforaethol.

Dyma sut buon ni'n cyflawni'r safonau a'r dyletswyddau hynny eleni.



Y Gymraeg

Mae ein huchelgais yn glir: rydyn ni am i'r Gymraeg fod yn iaith fyw a ddefnyddir yn ein sefydliad. Yn ymarferol mae hynny'n golygu:

- bod y fîm yn ei defnyddio bob dydd, ym mhob agwedd ar ein gwaith;
- nad rhywbeth rydyn ni'n ei defnyddio i gyfleu negeseuon yn unig mohoni, ond ffordd i ni greu cysylltiad â'n gilydd ac â'r rhai rydyn ni yma i'w cynrychioli;
- bod ewyllys da ymhlith y rhai yn y Tîm sydd ddim yn siarad Cymraeg, ac ymdeimlad o berchnogaeth yng nghyswllt dysgu a defnyddio'r iaith;
- bod pawb yn cydnabod cyfraniad y Gymraeg i ddiwylliant, cymdeithas ac economi Cymru;
- ein bod yn cyflawni, ac mewn rhai achosion yn rhagori ar ein rhwymedigaethau statudol o dan y safonau a amlinellir ym Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011;
- bod perchnogaeth ar ein dyheadau i gydymffurfio, hybu a diogelu'r Gymraeg ar lefel y Tîm Rheoli; a hefyd
- ein bod yn monitro ein gweithgareddau trwy gyfarfodydd y Tîm Rheoli, yn rhannu cyfrifoldeb ar y cyd, ac yn cytuno ar gamau rhagweithiol i gefnogi a chynyddu defnydd o'r iaith yn ein gweithle.



Rydyn ni'n mynd ati'n rhagweithiol i hybu'r iaith ac egwyddorion Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011 ac mae gennym ni fesurau i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r Safonau hyn.

Ar 31 Mawrth 2026, roedd **21** o bobl yn gweithio i'r Comisiynydd. O'r aelodau staff hynny:

10

sy'n disgrifio'u hunain fel rhai sy'n methu siarad Cymraeg/sydd ar lefel mynediad yn Gymraeg

1

sy'n disgrifio'u hunain fel rhywun â sgiliau lefel canolradd yn Gymraeg


2

sy'n disgrifio'u hunain fel rhai sydd â sgiliau lefel uwch yn Gymraeg

8

sy'n disgrifio'u hunain fel rhai sy'n rhugl yn y Gymraeg

Ni chawson ni unrhyw gwynion mewn perthynas â'r iaith Gymraeg yn ystod 2025/26.



Cydraddoldeb

Mae'r Comisiynydd yn awdurdod rhestredig o dan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb (Dyletswyddau Statudol)(Cymru) 2011. Mae hynny'n golygu bod rhaid i'r swyddfa ddilyn yr hyn a elwir yn 'ddyletswyddau cyffredinol' i hybu cydraddoldeb.

Fel sefydliad hawliau dynol cenedlaethol, mae cydraddoldeb yn ganolog i weledigaeth a chenhadaeth y Comisiynydd. Gallwch ddarllen ein hamcanion cydraddoldeb strategol a'n cynllun cyflawni ar ein gwefan yma: www.childcomwales.org.uk/about-us/our-work-on-equality/



Rhianta Corfforaethol

Yn ein hymrwymiaidau i bobl ifanc â phrofiad o ofal a gyhoeddwyd gennym, rydym wedi addo adrodd ar ein gwaith a'n cynnydd ym mhob rhan o Siarter Rhianta Corfforaethol Llywodraeth Cymru, ac rydyn ni wedi bod yn falch o ymrwymo i'r siarter honno a rhoi cynllun gweithredu llawn ar waith i'w gwreiddio yn ein gwaith.

Dyma uchafbwyntiau ein gwaith yn y maes hwn eleni:

- Rydyn ni wedi gwneud cyfranogiad plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal yn ffocws i'n gwaith, gan gynnwys cynnal cynhadledd ar 'Y Ffordd Gywir' ar gyfer Gofal Cymdeithasol a bord gron ar bolisi ynghylch blaenoriaethau Llywodraeth nesaf Cymru, a lansiwyd gyda thystiolaeth gan berson ifanc oedd â phrofiad o ofal.
- Yn ystod y flwyddyn, fe wnaethon ni ymateb i ymgynghoriad gan Lywodraeth Cymru ar Gôd Ymarfer Rhan 6 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ar Blant sy'n Derbyn Gofal ac yn cael eu Lletya, lle roedd ffocws ar rianta corfforaethol. Roedd ein hymateb yn pwysleisio pwysigrwydd sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu cynnwys yn ystyrllon yn eu bywydau eu hunain, gan gynnwys adolygiadau o'u gofal a'u cymorth. Buon ni'n galw hefyd am gydnabyddiaeth gryfach o urddas plant wrth iddyn nhw newid lleoliad, gan gynnwys sicrhau eu bod yn gallu pacio eu heiddo eu hunain, a bod bagiau addas yn cael eu darparu. Llywiwyd y gwaith hwn yn uniongyrchol trwy ymgysylltu â phlant a phobl ifanc oedd â phrofiad o ofal trwy Grŵp Hope.
- Rydyn ni wedi parhau i ymgysylltu â nifer o grwpiau cefnogi gwahanol ar gyfer profiadau o ofal neu fforymau, er mwyn clywed yn uniongyrchol gan bobl ifanc am eu profiadau a'u blaenoriaethau. Mae staff o ystod o dimau yn ein sefydliad wedi bod yn rhan o'r ymweliadau hyn er mwyn sicrhau effaith uniongyrchol ym mhob agwedd ar ein gwaith.
- Rydyn ni wedi parhau i archwilio opsiynau profiad gwaith ar gyfer pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal, ac wedi llwyddo i ddod ag un lleoliad i ben yn ystod haf 2025. Fe wnaethon ni gefnogi'r person ifanc i ymgysylltu â'r lleoliad, a'n nod yw annog mwy o gyrff cyhoeddus i fynd ati'n rhagweithiol i gynnig profiadau tebyg. Byddwn ni'n parhau i dargedu pobl ifanc sydd â phrofiad o ofal er mwyn hwyluso lleoliadau profiad gwaith, a hynny fel rhan o ddull ehangach o sicrhau bod ein profiad gwaith yn helpu i ymdrin ag anghydraddoldeb ac eithrio.

Proffil Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant y Gweithlu

Proffil Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ein gweithlu ar gyfer y flwyddyn ariannol 1 Ebrill 2025 tan 31 Mawrth 2026

Cyflwyniad a chyd-destun

Rydyn ni'n casglu gwybodaeth am amrywiaeth o aelodau'n Tîm a Phanel Archwilio a Chynghori'r Comisiynydd ynghylch yr holl nodweddion gwarchodedig sy'n cael eu cwmpasu gan y Ddeddf Cydraddoldeb bob blwyddyn.

Mae'r ystadegau pwysig hyn yn ein helpu i nodi camau cadarnhaol fydd yn gwella natur gynhwysol ein gweithle. Cais gwirfoddol yw hwn, ac mae rhyw 15% o'r cyfranogwyr yn dewis yr opsiwn 'dewis peidio â datgelu' yn achos pob nodwedd cydraddoldeb, felly nid oes gennym ddarlun cyfan, a rhown gafeat ar yr adran hon ar y sail honno.

Er ein bod yn cydnabod pwysigrwydd rhannu ein hystadegau amrywiaeth, fim bach ydyn ni (dim ond 21 o bobl ar 31 Mawrth 2026), felly mae cyfyngiadau ar lefel y manylion gallwn ni eu rhannu wrth barchu hawliau diogelu data ein cydweithwyr.

Er hwylustod adrodd a chymharu blynyddoedd, rydyn ni'n adrodd ein hystadegau ar ddyddiad penodol yn y flwyddyn (31 Mawrth 2026). O ganlyniad, mae'n rhaid i ni dderbyn hefyd na fydd y dull hwn yn casglu proffil amrywiaeth yr holl gyflogeion tymor byr na'r myfyrwyr ar leoliad rydyn ni wedi'u cefnogi yn ystod y cyfnod hwn, a fydd yn sicr yn dod â chyfoeth o safbwyntiau a phrofiadau i'n Tîm.

Er gwaethaf y cyfyngiadau hyn, mae'r data yn rhoi rhesymau i ni ddathlu a syniad o'r hyn sy'n ein helpu ar ein taith at greu gweithle mwy cynhwysol.



Rhesymau i ddathlu

Er gwaethaf y cyfyngiadau yn y data, fel y nodwyd uchod, mae pethau i'w dathlu eleni ynghylch cyfansoddiad ein Tîm bychan o bersbectif cydraddoldeb:

- Rydyn ni'n falch o'n cydraddoldeb rhywedd o safbwynt grymuso benywod yn y gweithle. Mae gennym ni Gomisiynydd Plant sy'n fenyw a thîm rheoli sy'n cynnwys 3/ allan o 6 arweinydd sy'n fenywod;
- Rydyn ni'n falch o'n cynrychiolaeth iaith Gymraeg. Mae gennym ni ganran uchel o gydweithwyr sy'n siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf, ac mae gan 48% o'n fîm staff sgiliau uwch neu rugl yn yr iaith;
- Rydyn ni hefyd wedi parhau i wella amrywiaeth ein fîm gyda rhai safbwyntiau pwysig (a fu gynt ar goll) o gymunedau ethnig lleiafrifol yng Nghymru, gan gynnwys y gymuned Tsieineaidd a chreodau sy'n cynnwys Bwdhaeth.
- Rydyn ni'n falch o'n hymdrechion i gefnogi pobl yn y gweithle sydd â chyflyrau iechyd hirdymor, ac rydyn ni wedi bod yn dysgu gan gydweithwyr ac aelodau'r fîm Archwilio a Chynghori sy'n deall anabledd trwy gysylltiad. Mae rhai o'r mentrau cefnogi a gynigiwyd i'n staff yn cynnwys ein dull gweithio hyblyg, galluoedd gweithio o bell, caniatâd i fod yn absennol ar gyfer apwyntiadau meddygol, gwasanaethau allanol megis Mynediad at Waith a Iechyd Galwedigaethol, prynu cyfarpar swyddfa penodol, ac asesiadau DSE. Rydyn ni'n cefnogi pobl ifanc ag anableddau i gyfranogi mewn prosesau recriwtio a chyfarfodydd a gweithgareddau ein Panel Ymgynghori, ac yn dysgu trwy'r amser gan eu perthnasau a'r bobl ifanc eu hunain beth yw'r ffordd orau o'u galluogi i gyfranogi'n llawn. Rydyn ni hefyd wedi parhau â'n taith eleni at fod yn sefydliad gwybodus am drawma, ac rydyn ni wedi parhau i ddysgu trwy fod yn aelodau o'r Cynllun Hyderus ynghylch Anabledd.

- Rydyn ni'n cyflogi pobl ar draws yr ystod oed, gydag aelod ifancaf y Tîm yn eu 20iau, a'r hynaf dros 60 oed.
- Gan mai fîm bach iawn o bobl ydyn ni, mae profiadau bywyd amrywiol aelodau ein Panel Ymgynghorol Oedolion, a'n Panel Ymgynghorol Plant a Phobl Ifanc hefyd yn gwneud cyfraniad hanfodol i ehanger ein golwg ar y byd

Rydyn ni'n ochelgar optimistaidd y bydd y newidiadau i'n prosesau recriwtio yn parhau i gynyddu amrywiaeth ein Tîm; serch hynny, nid ydym yn laesu dwylo ynghylch cydraddoldeb yn ein gweithlu. Rydyn ni'n gwybod y gall amrywiaeth ein Tîm newid wrth i un person ymddiswyddo, ac mae rhai profiadau bywyd pwysig yn dal ar goll o'n fîm presennol o staff.

Mae aelodau ein Panel Ymgynghorol yn cyflawni rôl hanfodol trwy ddod â lleisiau coll i'n gwaith. Mae ein panel cyfredol yn cynnwys pobl â phrofiadau bywyd LHDTC+, anabledd, cefndiroedd ethnig lleiafrifol a gwahanol grefyddau.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydyn ni wedi recriwtio i chwe chyfle am swydd, a thrwy hynny cawsom gyfle i fireinio a phrofi ein prosesau recriwtio mewn perthynas â chydaddoldeb. Rydyn ni wedi cyflwyno newidiadau ar sail arfer gorau i gynyddu cydraddoldeb a chynwysoldeb ein prosesau, megis symleiddio'r ffurflen gais a'i rhoi ar-lein, cyflwyno cwestiynau senario seiliedig ar gymhwysedd, lle na ddefnyddir enwau, ochr yn ochr â CVs fel rhan o'r broses rhestr fer, a chynnig sgysiau anffurfiol i ymgeiswyr. Rydyn ni wedi gweld cynnydd sylweddol yn nifer y ceisiadau, ymgeiswyr o safon uchel o amrywiaeth o gefndiroedd, ac adborth cadarnhaol ar y broses.

Roedd ein gweithgareddau dysgu a datblygu eleni yn cynnwys hyfforddiant Deallusrwydd Artiffisial (AI), Diogelu, a dysgu mwy am faterion cyhoeddus a'r cyfleoedd mae etholiadau'r Senedd yn 2026 yn eu cynnig. Cafodd y Tîm Rheoli gyfres o sesiynau datblygu sefydliadol ac arweinyddiaeth.





Amrywiaeth y gweithlu

Ar 31 Mawrth 2026, roedd gennym ni 21 o bobl ar y gyflogres (yn cynnwys y Comisiynydd Plant).

Rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026, gadawodd chwech o bobl y Tîm. Yn ystod y cyfnod hwn gwnaed chwe phenodiad newydd.

Ar 31 Mawrth 2026:

- Roedd **5%** o'n gweithlu (1 person) wedi'u cyflogi ar sail cyfnod penodol, yn uniongyrchol gysylltiedig â chyfnod mamolaeth.
- Roedd **67%** o'n cydweithwyr (14 allan o 21 o bobl) yn gweithio oriau amser llawn a 33% yn gweithio oriau rhan amser. Roedd cynnydd o 9.5% yn y gweithwyr amser llawn o gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae 14% o'n gweithwyr rhan amser yn wryw (1 allan o 7 o bobl). Mae hyn yn gynnydd o 5.5% ers y flwyddyn flaenorol.
- Mae **71%** o'n gweithlu yn nodi eu bod yn fenywod; mae hyn yn ostyngiad o 11% ers y llynedd. Mae'r rhan fwyaf o aelodau ein Panel Archwilio ac Ymgynghorol hefyd yn fenywod.
- Datgelodd mwyafrif o'r fîm staff gyfeiriadedd gwahanrywiol neu ddewis peidio â datgelu eu cyfeiriadedd rhywiol. Datgelodd canran fechan o aelodau ein Panel Archwilio ac Ymgynghorol gyfeiriadedd hoyw.
- Ni ddatgelodd neb yn y Tîm hunaniaeth drawsrywiol, deurywedd na rhyweddhyllfol yn ystod y cyfnod hwn.
- Mae **28.5%** (6 o bobl) o'n cydweithwyr yn y cyfnod hwn o dan 35 oed; mae hyn yn llai na'r llynedd, pan oedd 35% o'n gweithlu o dan 35 oed. Mae 33% (2 allan o 6 o bobl) yn y grŵp oed yma yn gweithio'n rhan amser.
- Mae **52%** (11 o bobl) o'n cydweithwyr yn y cyfnod hwn rhwng 36 a 54 oed. Mae 27% (3 allan o 11 o bobl) yn y grŵp oed yma'n gweithio'n rhan amser. Mae'r rhan fwyaf o'n Panel Archwilio ac Ymgynghorol Oedolion yn y grŵp oed yma.
- Mae **19%** (4 o bobl) o'n cydweithwyr yn 55 oed a throsodd, sydd fymryn yn is na'r ffigwr y llynedd; mae 50% (2 allan o 4 o bobl) yn y grŵp oed yma yn gweithio'n rhan amser.
- Ar hyn o bryd nid ydyn ni'n cyflogi neb dros 65 oed.
- Mae **19%** o'n gweithlu yn byw gyda chyflwr iechyd hirdymor/anabledd; o gymharu â 22.5% o weithlu Cymru gyfan.
- Ar 31 Mawrth 2026 roedd **86%** o'n gweithlu yn datgan bod ganddynt ethnigrwydd gwyn (fymryn yn is na'r flwyddyn flaenorol); roedd 76% yn disgrifio'u hunain fel Cymry Gwyn. Ymhlith y cefndiroedd ethnig eraill yn ein Tîm presennol mae pobl o gefndir America Ladin, Tsieineaidd a Gwyn ac Asiaidd.
- Mae **52%** o'r cyflogaion (11 allan o 21 o bobl) yn disgrifio'u sgiliau Cymraeg fel rhai lefel rhugl, uwch neu ganolradd. Dywedodd 48% o'n gweithlu fod ganddyn nhw sgiliau lefel mynediad neu sylfaen yn yr iaith.
- Dywedodd **33%** o'n gweithlu eu bod wedi ymrwymo i grefydd benodol (oedd yn cynnwys Cristnogaeth, Bwdhaeth ac un arall). Dywedodd 43% o'n cydweithwyr nad oedd ganddyn nhw grefydd na chred, tra bod 14% yn dewis peidio â dweud. Mae ein panel Ymgynghorol Oedolion yn cynnwys Siciaid a Mwslimiaid.
- Yn ystod y flwyddyn ariannol hon, rydyn ni wedi cefnogi un person trwy feichiogrwydd a chyfnod mamolaeth.
- Bu cynrychiolwyr o bob rhywedd, a'r rhan fwyaf o raddau a mathau o gontractau yn cyrchu cyfleoedd dysgu a datblygu eleni. Yn ogystal â cheisiadau am ddysgu unigol, mae ein rhaglen ar gyfer datblygu'r fîm cyfan yn parhau, ac yn galluogi gweithwyr rhan amser, gweithwyr dros dro a gweithwyr â nodweddion gwarchodedig i gael mynediad cyfartal at gyfleoedd dysgu a datblygu.

Differynnau Rhywedd a Chyflog

Mae'r System Gwerthuso a Graddio Swyddi sy'n sylfaen ar gyfer y system gyflogau yn CPC yn dyrannu bandiau i swyddi unigol ar sail saith ffactor gwaith gwahanol: ymreolaeth, datrys problemau, gwneud penderfyniadau, effaith, rheoli adnoddau, cysylltiadau a chyfathrebu, gwybodaeth a sgiliau. Mae'r system hon yn sicrhau bod gwahaniaethau yng nghyflogau swyddi yn gysylltiedig â gofynion penodol y swyddi, ac mae hynny'n cyfrannu at ein hymrwymiad i ddileu bias yn y broses recriwtio.

O'r 16 o staff benyw oedd mewn swyddi ar 31 Mawrth 2026, roedd 3 chyflogai, neu 19% o'r gweithlu benyw, yn cael eu cyflogi ar y tri band cyflog uchaf; o gymharu â 3 chyflogai gwryw, neu'n hytrach 60% o'r gweithlu gwryw. Y differyn rhwng y ddau yw 41%.

Mae cydbwysedd rhywedd y Tîm Rheoli ei hun yn gytbwys, gyda 3 chyfranogwr benyw a 3 gwryw. Staff benyw yw mwyafrif ein gweithlu o hyd, a benyw sy'n llenwi'r swydd uchaf yn y sefydliad.

Mae cyflog cyfartalog cyfwerth ag amser llawn gweithiwr benyw ar 31 Mawrth 2026 wedi codi i ryw £47,600 o £45,500 y llynedd, ac mae cyflog cyfartalog gweithiwr gwryw wedi codi i ryw £49,800 o £47,426 y llynedd. Bu cynnydd

yn y differyn rhwng y ddwy rywedd eleni, gyda gweithwyr gwryw yn ennill £2,200 y flwyddyn yn fwy na gweithwyr benyw.

Dim ond aelodau benyw o staff sydd yn y ddau fand cyflog isaf yn CPC, ac mae 6 o'r 7 gweithiwr rhan amser yn CPC yn fenywod.

O'r 16 aelod o staff benyw oedd yn gyflogedig ar 31 Mawrth 2026, mae 37.5% (6 o bobl) yn llenwi rolau rhan amser. Mae 20% o'r gweithlu gwryw yn gweithio'n rhan amser. Mae hyn yn cymharu â 25% o'r gweithlu gwryw oedd yn gweithio'n rhan amser y llynedd.



CRYNODEB O WYBODAETH ARIANNOL

2025-26

Mae fy nhîm Cyllid a Gwasanaethau Craidd yn fy nghefnogi yn fy rôl fel Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer y sefydliad.

Isod ceir crynodeb o'r wybodaeth ariannol sy'n rhan o Gyfrifon Blynnyddol y Comisiynydd ar gyfer 2025-26. Mae cyfres lawn o ddatganiadau ariannol i'w canfod ar wefan y Comisiynydd – www.complantcymru.org.uk

Bu'r cyfrifon yn destun archwilio allanol; rhoddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru farn ddiamod ar y cyfrifon hyn.





Y swyddogion canlynol oedd Tîm Rheoli'r Comisiynydd yn ystod 2025-26:

Rocio Cifuentes – Comisiynydd Plant Cymru

Jonathan Cox – Prif Swyddog Gweithredol, o 15 Medi 2025

Sara Jermin – Dirprwy Gomisiynydd a Phennaeth Ymgysylltu, tan 10 Rhagfyr 2025

Rachel Thomas – Pennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus, tan 31 Hydref 2025

Lina Liu – Pennaeth Hawliau Plant, Cyngor a Chymorth

Amanda Evans – Pennaeth Adnoddau Dynol; tan 30 Mehefin 2025

Kathryn O'Kane – Pennaeth Cyfranogiad (Interim) o 10 Rhagfyr 2025

Paul Lewis – Pennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus, o 16 Chwefror 2026

Tony Evans – Pennaeth Cyllid

Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg

Ceir manylion pellach am rôl a swyddogaeth y Pwyllgor hwn yn ein datganiad llywodraethiant ac yn Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor, sydd i'w ganfod ar wefan y Comisiynydd – www.complantcymru.org.uk.

I grynhoi, mae Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg y Comisiynydd yn rhoi cyngor a sicrwydd ynghylch llywodraethiant corfforaethol, rheoli risg, a rheolaeth yn swyddfa'r Comisiynydd, yn ogystal â digonolrwydd y trefniadau archwilio mewnol ac allanol. Mae'n cwrdd o leiaf ddwywaith y flwyddyn ac yn cynnwys uwch swyddogion o Swyddfa'r Comisiynydd ac Aelodau Anweithredol.

Aelodau Anweithredol y Pwyllgor yw:

Julie Richards – Awdur Annibynnol/ Ymgynghorydd Cyfathrebu Strategol

Bernie Bowen-Thomson – Prif Swyddog Gweithredol Cymru Fwy Diogel. Ymddiswyddodd ar 16 Gorffennaf 2025

Jo Hendy – Prif Swyddog Archwilio, Risg a Gwybodaeth i Gyngor Sir Penfro a Phennaeth Archwilio Mewnol ERW a Bargaen Ddinesig Bae Abertawe. Ymddiswyddodd ar 16 Gorffennaf 2025

Michaela Leyshon – Tiwtor Proffesiynol, Prifysgol Abertawe, o fis Ebrill 2022. Ymddiswyddodd ar 16 Gorffennaf 2025

Suzy Davies (Chair) – (Cadeirydd) – Cyn-aelod o'r Senedd, o fis Ebrill 2022

Kelly Harris – Cadeirydd y Panel Ymgynghorol Oedolion, o fis Hydref 2023

Danielle Rees – Cyfreithiwr, o fis Mehefin 2024

Mark Jones – Prif Swyddog Gweithredol Coleg Gŵyr, o fis Mehefin 2024

Ellie Harwood – Rheolwr Datblygu CPAG, o fis Chwefror 2025

Jayne Drummond – Prif Swyddog Gweithredol Home Start, o fis Mawrth 2024

Mae cynrychiolwyr o Archwilio Cymru a TIAA Ltd (ein harchwilwyr mewnol cyfredol) hefyd yn rhan o bob cyfarfod.

Ariannu


Mae Comisiynydd Plant Cymru yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru, ond yn cael ei ariannu ganddi. Yn 2025-26 derbyniodd y Comisiynydd **£1.949 miliwn** (2024-25: £1.667 miliwn) i dalu am weithgareddau'r Comisiynydd.

Gwariant

Yn ystod 2025-26 gwariodd y Comisiynydd ar y canlynol:

Costau Staff:	2025-26 (£'000)	2024-25 (£'000)
Cyflogau	1,094	936
Yswiriant Gwladol	134	94
Pensiwn	255	257
Adferion net o ran secondiadau	-	-
Cyfanswm	1,483	1,287

Mae'r siart isod yn darlunio costau gweithgareddau gweithredu yn ôl categori'r gwariant. Mae hefyd yn cynnwys manylion dibrsiad heblaw arian parod.





Helps. Speaks

lo, my name is Rocio
fuentes and I'll be the
Children's Commissioner
for Wales from April 2022
until April 2029.

It's my job to:

Listen to children and young people
to find out what you need.

Speak up about the things you need.
Help you, and those who care for you,
if you think you are treated unfairly.

Article 3:
Adults must be
Article 4:
Governments must protect with
my rights.
Article 5:
My family should help me
my own rights.
Article 6:
I have the right to
Article 7:
I have a right to
to a country.
Article 8:
I have the

28

Confensiwn y CU ar
Hawliau'r Plentyn



How can I learn
I want to

Confensiwn y CU ar
Hawliau'r Plentyn



27

Confensiwn y
Hawliau'r Ple



11

26



Confensiwn y CU
Hawliau'r Plentyn

Confensiwn y CU ar
Hawliau'r Plentyn



Dylai fy rheulu gael
yr arian sydd ei angen
i helpu i'm magu

People
I am safe and
commissioner.wales

Comisiynydd Plant Cymru
Urban HQ,
37 Heol y Berllan,
Abertawe, SA1 5AJ

post@childcomwales.org.uk
01792 765600



Comisiynydd
Plant Cymru

Children's
Commissioner
for **Wales**